Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau Statudol ar Ddraenio Cynaliadwy (SDCau)

Ar gyfer awdurdodau lleol ar weithredu Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, y defnydd gorfodol o SDCau mewn datblygiadau newydd a chymeradwyo a mabwysiadu gan gorff cymeradwyo (CCS) y SDCau

Canllawiau

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53735, ISBN digidol 978-1-83745-430-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


**Adran 1: Cyflwyniad ........ 4**

Cyd-destun y canllawiau hyn ........ 4

I bwy y mae'r canllawiau hyn ........ 4

Statws y canllawiau hyn ........ 5

Beth yw corff cymeradwyo? ........ 5

Beth yw cais ar gyfer system ddraenio gynaliadwy? ........ 6

Y fframwaith cyfreithiol ehangach a rhyngweithio â'r Safonau Statudol ........ 6

**Adran 2:Gweithredu ........ 9**

Prif ddarpariaethau Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ........ 9

Draenio Cynaliadwy ........ 9

Safonau Statudol ar gyfer SDCau – egwyddorion, safonau a chanllawiau ........ 10

Dylunio a chyflwyno SDCau sy'n cynnig manteision lluosog ........ 12

Ar lefel cynllunio strategol ........ 12

Nodi SDCau amlfanteisiol mewn ceisiadau ........ 13

Sicrhau hirhoedledd manteision lluosog ........ 14

Ymgysylltu â chymunedau a deiliaid ........ 15

Esemptiadau rhag yr angen i gael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo ........ 15

Cyfyngiadau ac eglurder ynglŷn â'r esemptiadau ar gyfer ffyrdd a rheilffyrdd ........ 16

SDCau sy'n amodol ar gymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo ond nad ydynt yn cael eu mabwysiadu ........ 16

Cysylltu â'r prosesau presennol – adrannau Cynllunio, Priffyrdd a Pharciau ........ 17

Cynllunio ........ 18

Datblygiad Priffordd ........ 18

Man agored cyhoeddus ........ 19

Budd Net i Fioamrywiaeth a chyrraedd y Safon ynglŷn â Bioamrywiaeth ........ 19

Pennu ffioedd a safonau gwasanaeth cyrff cymeradwyo ........ 21

Sicrhau bod ffioedd cyrff cymeradwyo yn deg ac yn werth da am arian ........ 21

**Adran 3: Cymeradwyo SDCau ........ 22**

Cyn gwneud cais am gymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo ........ 22

Llunio datblygiad newydd ........ 22

Ymgysylltu ar gam cynnar ........ 22

Ymgynghori ag ymgyngoreion statudol ac anstatudol ........ 23

Gwneud cais i'r corff cymeradwyo am gymeradwyaeth – gofynion, penderfyniad, amodau a'r ffurflen gais ........ 25

Ceisiadau dilys ........ 25

Ffurflen gais SDCau ........ 26

Penderfynu ar geisiadau ........ 26

Cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i amodau ........ 27

Hysbysiad o benderfyniadau cymeradwyo ........ 28

Nodi pa archwiliadau y bydd eu hangen ........ 28

Ystyried cytundebau cyrff cymeradwyo ........ 28

A oes angen cytundeb o blaid mabwysiadu? 28
Penderfynu a oes angen Bond Methu â Chyflawni 29
Diben y bond 30
Cyfrifo gwerth y bond 31
Hawlio'r bond 32
Dychwelyd y bond 33
Codi ffioedd am gymeradwyo ac archwilio 33
Strwythur ffioedd ar gyfer cyfrifo ffioedd ceisiadau 33
**Adran 4: Mabwysiadu SDCau 35**
Dyletswydd i fabwysiadu 35
Amodau mabwysiadu y mae'n rhaid eu bodloni 35
Hysbysiad o benderfyniad i fabwysiadu 36
Eithriadau i'r ddyletswydd i fabwysiadu 36
Mabwysiadu gwirfoddol 37
Cynnal a chadw a'r modd i gyllido'r cynllun dros oes ei ddyluniad 37
Cynlluniau cynnal a chadw 37
Cynnal a chadw a chyllido corff cymeradwyo SDCau 38
Symiau a gymudwyd 39
Llywodraeth Leol 40
Cwmni Rheoli 40
Unigolion preifat – perchenogion neu ddeiliaid eiddo 40
Dynodi - cofrestr asedau, monitro ac adrodd 41
**Adran 5: Pan fydd pethau yn mynd o chwith 44**
Datrys anghytundebau – apeliadau 44
Penderfyniadau cyrff cymeradwyo y gellir apelio yn eu herbyn a'r terfyn amser i wneud hynny 44
Gorfodi 45
Hysbysiadau gorfodi 46
**Adran 6: Nodiadau cyngor ar gyfer dylunio ac adeiladu SDCau mewn lleoliadau gwahanol 47**
Cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo 47
Pam mae angen SDCau? 47
Sut i ddefnyddio'r nodiadau hyn 47
Gofynion ar gyfer Ceisiadau Chwareli a Mwyngloddiau 48
Gofynion Allweddol 48
Gofynion ar gyfer Ceisiadau Coedwigaeth 49
Gofynion Allweddol 49
Canllawiau Pellach 50
Datblygiadau annedd unigol ac amaethyddol 50
Beth yw SDCau? 50
Beth yw Cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo SDCau? 55
Pryd bydd angen cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo? 56

Goblygiadau o ran Draenio ... 57

Gwahanol fathau o adeiladau ac arwynebau lle mae angen cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo... 58

Rhyngweithio rhwng gofynion deddfwriaethol SDCau a Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ... 59

Ymgymryd â dylunio datblygiadau annedd unigol a gwneud cais i'r corff cymeradwyo ... 60

**Proses 3 cham gan y corff cymeradwyo ar gyfer datblygiadau annedd unigol ... 63**

Rhestr wirio ar gyfer gwneud cais ar gyfer datblygiadau annedd unigol ... 64

Ymgymryd â'r broses o ddylunio a gwneud cais ar gyfer datblygiadau amaethyddol bach ... 69

**Rhestr wirio ar gyfer gwneud cais ar gyfer datblygiad amaethyddol bach... 71**

**Atodiad 1 - Rhestr Wirio Hierarchaeth SDCau ... 74**

Safon 1 – Rhestr Wirio Hierarchaeth SDCau i ddylunwyr/ceiswyr a chyrff cymeradwyo ... 74

**Atodiad 2 – Proses gwneud cais ar gyfer system ddraenio gynaliadwy (diagram) ... 75**

# Adran 1: Cyflwyniad

## Cyd-destun y canllawiau hyn

1.1 Ers 7 Ionawr 2019, mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (“Deddf 2010”) yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd yng Nghymru sydd ag ardal adeiladu o 100 metr sgwâr neu fwy, gynnwys systemau draenio cynaliadwy (SDCau) i reoli dŵr wyneb.

1.2 Rhaid i’r SDCau gael eu dylunio a’u hadeiladu yn unol â Safonau SDCau Statudol Gweinidogion Cymru (y Safonau Statudol)[1] a rhaid i ddyluniadau ar gyfer cynlluniau SDCau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol, yn gweithredu yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDCau (corff cymeradwyo), cyn bod unrhyw waith adeiladu yn dechrau. Mae hyn yn cynnwys gwaith galluogi cynnar, megis gwaith i glirio’r safle, newid lefelau, mewnlenwi gwagleoedd o dan yr wyneb a gweithgareddau torri a llenwi.

1.3 Mae gan yr holl weithiau hyn y potensial i ddylanwadu ar y ffordd y mae dŵr glaw yn draenio i mewn i’r ddaear ac yn rhedeg ar draws wyneb y safle ac felly fe’u hystyrir yn weithiau adeiladu sydd â goblygiadau o ran draenio yn unol â pharagraff 7 o Atodlen 3 i’r Ddeddf. Mae cais i gorff cymeradwyo yn ychwanegol at gais cynllunio (ac yn wahanol iddo) a gall fod yn ofynnol o dan rai amgylchiadau lle nad yw cais cynllunio yn ofynnol.

1.4 Pan fydd y gwaith wedi’i gwblhau, rhaid i gyrff cymeradwyo fabwysiadu unrhyw system ddraenio gynaliadwy sy’n cydymffurfio ac sy’n gwasanaethu dau eiddo neu fwy.[2]

## I bwy y mae’r canllawiau hyn

1.5 Rhaid i gyrff cymeradwyo roi sylw i’r canllawiau hyn o dan Atodlen 3 Deddf 2010).

1.6 Mae’r canllawiau hyn hefyd wedi’u hanelu at geiswyr, eu hasiantau, ymgyngoreion statudol a datblygwyr, er mwyn rhoi rhywfaint o eglurder ynglŷn â’r broses o geisio a chael cymeradwyaethau gan y corff cymeradwyo , a sut y gellid cyrraedd y Safonau Statudol mewn lleoliadau gwahanol. Rhaid i geiswyr ddangos eu bod yn cydymffurfio â’r Safonau Statudol i gael cymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo (gweler ymhellach isod).

[1] Mae Safonau SDCau Statudol ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio dŵr wyneb ar gael yn: https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?lang=cy
[2] Nid yw’r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys os yw’r system yn gwasanaethu safle sy’n berchen gan neu yn cael ei reoli gan berson unigol neu ddau berson neu ragor gyda’i gilydd, fel y’u diffiniwyd mewn rheoliadau – gweler Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018)

## Statws y canllawiau hyn

1.7 Canllawiau statudol yw'r ddogfen hon, a rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddi wrth arfer eu swyddogaeth fel corff cymeradwyo o dan baragraff 6 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

1.8 Mae'r canllawiau hyn yn weithredol o'r dyddiad cyhoeddi ac maent yn disodli'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd yn 2019. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r Safonau Statudol cyfredol.

1.9 Cyhoeddir y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Os bydd corff cymeradwyo yn ceisio penderfynu ar y ffordd briodol o ymdrin â mater nad yw'n cael ei drafod yn benodol yn y canllawiau hyn, mae'n arfer gorau ymgysylltu â chyrff cymeradwyo eraill, naill ai ar lefel ranbarthol neu ar lefel genedlaethol drwy Gymuned Ymarfer SDCau neu Gymdeithas SAB Cymru. Dylai cyrff cymeradwyo ledled Cymru gydweithio i greu consensws ynglŷn â materion o'r fath, fel y caiff y rhain eu trin mewn ffordd gyson a theg ledled Cymru, ac er mwyn llywio canllawiau pellach a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn well.

1.10 Os ydych yn ddarpar geisydd yn ceisio cyngor ar ddehongli'r Safonau Statudol, mae'r canllawiau hyn, neu'r hyn y tybir ei fod yn debygol o gael ei gymeradwyo o dan gais i gorff cymeradwyo, dylech geisio cyngor gan eich corff cymeradwyo lleol mor gynnar â phosibl ac yn ddelfrydol ar y cam cysyniad safle.

1.11 Mae'n bwysig nodi nad oes gan swyddogion Llywodraeth Cymru unrhyw bŵer nac awdurdod i roi unrhyw gyngor deongliadol neu dechnegol, naill ai i Gyrff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy neu i geiswyr, yn achos ceisiadau unigol, neu wedyn farnu prosesau gwneud penderfyniadau cyrff cymeradwyo, oherwydd rôl statudol Gweinidogion Cymru mewn apeliadau posibl yn erbyn penderfyniadau gan gyrff cymeradwyo. Mae'r swyddogaeth apeliadau hon wedi'i dirprwyo i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru. Mae cyngor penodol i geiswyr ynglŷn â sut y gellir cyflwyno apêl yma.

1.12 Cyhoeddir y canllawiau yn rhinwedd pwerau Gweinidogion Cymru o dan:

- Baragraff 15 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010, sy'n darparu ar gyfer cyhoeddi canllawiau ynglŷn â'r broses o geisio a chael cymeradwyaeth – ac ar gyfer yr holl agweddau eraill a geir yn y canllawiau hyn nad ydynt yn dod o dan y ddarpariaeth hon;
- Adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n trosglwyddo swyddogaethau gweithredol i Weinidogion Cymru wneud pethau sy'n ffafriol i'w swyddogaethau eraill neu sy'n deillio o'u swyddogaethau eraill.

### Beth yw corff cymeradwyo?

1.13 Mae Atodlen 3 i Ddeddf 2010 yn sefydlu Cyrff Cymeradwyo SDCau (cyrff cymeradwyo) mewn awdurdodau lleol. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi

cyfrifoldeb statudol i’r cyrff hynny am gymeradwyo ac, o dan amgylchiadau penodol, fabwysiadu’r systemau draenio cymeradwy.

1.14 Sefydlir y corff cymeradwyo er mwyn:

- Gwerthuso a chymeradwyo ceisiadau mewn perthynas â draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd, lle mae i waith adeiladu oblygiadau o ran draenio, a
- Mabwysiadu a chynnal a chadw cynlluniau SDCau, yn ddarostyngedig i amodau ac esemptiadau a bennwyd yn Neddf 2010 a’r cymeradwyaethau a’r rheoliadau sy’n ymwneud â gweithdrefnau cymeradwyo a mabwysiadu[3].

**Beth yw cais ar gyfer system ddraenio gynaliadwy?**

1.15 Rhaid i gais sy’n dangos cydymffurfedd â Safonau SDCau Statudol ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw a gweithredu systemau dŵr wyneb sy’n gwasanaethu datblygiadau newydd, lle mae’r tir yn ymestyn dros 100 metr sgwâr neu fwy, gael ei gyflwyno i’r corff cymeradwyo.

1.16 Caiff ceisiadau eu cyflwyno i’r corff cymeradwyo er mwyn iddo benderfynu arno naill ai fel cais ar ei ben ei hun neu ochr yn ochr â’r cais cynllunio drwy’r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) (cais cyfun). Argymhellir y dylai ACLlau a chyrff cymeradwyo weithio mewn partneriaeth, hyd y gellir, i sicrhau mor ddidrafferth â phosibl y canlyniadau gorau posibl i geiswyr.

1.17 Mae’n bwysig nodi na chaniateir cychwyn ar waith adeiladu sydd â goblygiadau o ran draenio oni bai bod y system ddraenio ar gyfer y gwaith wedi cael ei chymeradwyo gan y corff cymeradwyo.

1.18 Ar gyfer pob datblygiad newydd, mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i gyrff cymeradwyo geisio gostyngiad cyffredinol yng nghyfeintiau’r dŵr wyneb sy’n cyrraedd carthffosydd cyhoeddus a systemau cyfun, neu leihad sylweddol, fel rhan o’r nod o ‘Sicrhau sefydlogrwydd a pharhauster systemau draenio’ mewn ffordd gynaliadwy.

## Y fframwaith cyfreithiol ehangach a rhyngweithio â’r Safonau Statudol

1.19 Mae Atodlen 3 i Ddeddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi safonau cenedlaethol ar gyfer dylunio ac adeiladu systemau draenio dŵr wyneb cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd. Mae’n ei gwneud yn ofynnol bod y cynigion ar gyfer systemau o’r fath yn cael eu cymeradwyo gan y corff cymeradwyo cyn y gall unrhyw waith adeiladu ddechrau ac wrth ystyried cais, bydd angen i’r corff cymeradwyo fodloni ei hun bod y system ddraenio yn cyrraedd y Safonau SDCau pan fyddant wedi’u hadeiladu yn gyntaf a thros oes y datblygiad drwy waith cynnal a chadw priodol a chadarn.

[3] Gweler Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018

1.20 Mae Deddf 2010 hefyd yn rhoi'r fframwaith ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu'r systemau draenio dŵr wyneb hyn. Mae'r gwaith o roi'r Ddeddf ar waith yng Nghymru wedi'i ategu gan chwe offeryn statudol, sy'n ymdrin â'r canlynol:

- Cymeradwyo a Mabwysiadu (Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018) (dolen allanol);
- Materion gweithdrefnol sy'n ymwneud â chymeradwyo a mabwysiadu (Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018) (dolen allanol);
- Ffioedd (Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018) (dolen allanol);
- Gorfodi'r gofyniad i gael cymeradwyaeth gan y Corff cymeradwyo (Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018) a Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) (Diwygio) 2020)
- Apelio yn erbyn penderfyniadau gan y corff cymeradwyo (Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018) (dolen allanol).

1.21 Mae'r ddeddfwriaeth, ynghyd â'r Safonau Statudol, yn sefydlu gweithdrefn cymeradwyo a mabwysiadu, sy'n cael ei hesbonio a'i hategu gan y canllawiau hyn.

1.22 Mae'r canllawiau a geir yn y ddogfen hon wedi cael eu diwygio ar ôl cael mewnbwn gan aelodau o Gymuned Ymarfer SDCau.

1.23 Lle y bo'n briodol, mae'n bosibl y bydd cyrff cymeradwyo am roi canllawiau atodol pellach i adeiladu ar y canllawiau a roddir yn y ddogfen hon a helpu i gyflawni'r rôl o gymeradwyo a mabwysiadu. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus nad yw canllawiau o'r fath yn mynd yn groes i'r canllawiau hyn (nac yn rhoi'r argraff eu bod yn eu disodli). Dylai SABs ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol cyn cyhoeddi unrhyw gyngor atodol o'r fath.

**Nodyn ar gydymffurfedd Gweithiau Cyhoeddus**

1.24 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a gwneud penderfyniadau sy'n sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at saith nod llesiant Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd glir ar gyrff cyhoeddus i feddwl yn yr hirdymor, atal problemau, integreiddio eu gweithredoedd, cydweithio'n effeithiol, a chynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

1.25 Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i unrhyw gorff cyhoeddus sy'n comisiynu gwaith adeiladu neu sy'n ymgymryd â gwaith adeiladu y mae'r gofynion SDCau statudol yn gymwys iddo, ddangos cydymffurfedd â'r gofynion hynny sy'n esiampl i eraill. Mae hyn yn golygu cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod SDCau yn cael eu dylunio, eu cymeradwyo, eu cyflwyno, a'u cynnal a'u cadw mewn ffordd sy'n cefnogi gwytnwch amgylcheddol, sy'n atal perygl llifogydd a llygredd yn y dyfodol, ac sy'n cyfrannu at amcanion llesiant ehangach mewn ffordd ystyrlon. Drwy ymgorffori cydymffurfedd

SDCau yn llawn wrth gynllunio a chyflwyno prosiectau, bydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, yn cefnogi Cymru sy'n fwy cydnerth ac yn gyfrifol yn fyd-eang, ac yn sicrhau nad yw seilwaith a ddatblygir heddiw yn peryglu llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

# Adran 2:Gweithredu

## Prif ddarpariaethau Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

2.1 Mae'r darpariaethau allweddol sy'n ymwneud â draenio cynaliadwy yn Atodlen 3 i Ddeddf 2010 yn gwneud y defnydd o ddraenio cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd (gan gynnwys ailddatblygiadau) sydd â goblygiadau o ran draenio yn orfodol, ynghyd â rhoi dyletswydd a gweithdrefn i sicrhau eu bod yn cael eu mabwysiadu a'u cynnal a'u cadw yn y dyfodol.

2.2 Mae Deddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Safonau ar gyfer draenio cynaliadwy.

2.3 Er mwyn cyflawni nodau Deddf 2010 mae'n:

- gwneud pob awdurdod unedol yng Nghymru yn gyfrifol am gymeradwyo dyluniadau SDCau cyn y gall unrhyw waith adeiladu sydd â goblygiadau o ran draenio ddechrau.
- ei gwneud yn ofynnol i'r corff cymeradwyo fabwysiadu systemau draenio sy'n gwasanaethu sawl eiddo, sy'n ei wneud yn gyfrifol am sicrhau bod system draenio dŵr wyneb sy'n cael ei mabwysiadu gan y corff cymeradwyo yn cael ei chynnal a'i chadw yn unol â'r Safonau SDCau Statudol.
- diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i wneud yr hawl i gysylltu dŵr wyneb â charthffosydd cyhoeddus yn amodol ar gael cymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo bod y system ddraenio yn cyrraedd y Safonau SDCau Statudol.
- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cymeradwyo a mabwysiadu gan y corff cymeradwyo; gorfodi'r gofyniad i gael cymeradwyaeth; ac ar gyfer ffioedd cymeradwyo
- galluogi gwneud is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â materion amrywiol sy'n ymwneud â chymeradwyo a mabwysiadu.
- nodi'r gofynion ymgynghori statudol ar gyfer y broses gymeradwyo.

2.4 Ceir siart lif o'r broses o wneud cais ar gyfer system ddraenio gynaliadwy gyda mewnbwn y corff cymeradwyo yn Atodiad 2.

### Draenio Cynaliadwy

2.5 Mae paragraff 2 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010 yn diffinio draenio cynaliadwy fel rheoli dŵr glaw gyda'r nod o:

- Leihau difrod o ganlyniad i lifogydd,
- Gwella ansawdd dŵr,

- Diogelu a gwella'r amgylchedd,
- Diogelu iechyd a diogelwch, a
- Sicrhau sefydlogrwydd a pharhauster systemau draenio.

## Safonau Statudol ar gyfer SDCau – egwyddorion, safonau a chanllawiau

2.6 Nod y Safonau SDCau Statudol yw rhoi fframwaith ar ffurf egwyddorion a safonau, ynghyd â chanllawiau i sicrhau SDCau o ansawdd da ar ddatblygiadau newydd a fydd yn sefyll prawf amser. Wrth ystyried cais am gymeradwyaeth, rhaid i'r corff cymeradwyo[4]:

- ei gymeradwyo os yw wedi'i fodloni y bydd y system ddraenio os caiff ei hadeiladu fel y'i cynigiwyd yn cydymffurfio â'r Safonau SDCau Statudol; neu
- ei wrthod os nad yw wedi'i fodloni.

2.7 Wrth gymeradwyo cais am gymeradwyaeth, caiff y corff cymeradwyo gymhwyso amodau at y gymeradwyaeth. Mae'r amodau hyn yn gyfyngedig eu cwmpas ond gallant:

- Ymwneud ag adeiladu'r system ddraenio (a all olygu addasu'r cynnig adeiladu)
- Darparu mai dim ond os a phryd mae'r ceisydd yn rhoi bond methu â chyflawni, a all yn ei dro fod yn ddarostyngedig i gytundeb cyfreithiol rhwng y corff cymeradwyo a'r datblygwr.
- Ymwneud ag archwilio
- Ei gwneud yn ofynnol i ffioedd ychwanegol gael eu talu (e.e. ffioedd archwilio)

2.8 Cyhoeddir y Safonau SDCau Statudol cymeradwy ar wefan Llywodraeth Cymru fel Safonau Statudol Gweinidogion Cymru ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (dolen allanol)[5]. Oni bai bod datblygiad yn esempt rhag y gofyniad i gael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo (gweler adran 2 o'r canllawiau hyn), rhaid i'r ceisydd ddangos cydymffurfedd â'r Safonau SDCau Statudol.

2.9 Mae'r Safonau SDCau Statudol yn cynnwys:

- Set o egwyddorion y mae'n rhaid eu cymhwyso wrth ddylunio unrhyw gynllun draenio dŵr wyneb er mwyn cael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo,

[4] Gweler paragraff 11(1) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[5] Mae'r Safonau SDCau Statudol ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio dŵr wyneb ar gael yn: https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?lang=cy

- Chwe safon, sydd wedi'u rhifo o S1 i S6 ac sy'n ymdrin â'r canlynol yn eu tro:
    - S1 - Cyrchfan dŵr wyneb ffo
    - S2 - Rheolaeth hydrolig
    - S3 - Ansawdd dŵr
    - S4 - Amwynder
    - S5 - Bioamrywiaeth
    - S6 - Dylunio draenio ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw

2.10 Mae pob un o'r Safonau SDCau Statudol wedi'u rhifo a'u cyflwyno yn y ddogfen hon mewn blwch llwyd. Er enghraifft:

> S3 Rheolaeth hydrolig ar ddŵr wyneb
>
> Dylid darparu triniaeth ar gyfer dŵr wyneb ffo i atal effeithiau negyddol ar ansawdd y dŵr derbyn a/neu amddiffyn systemau draenio i lawr yr afon, gan gynnwys carthffosydd.

2.11 Dilynir y Safonau SDCau Statudol gan fewnbaragraffau o Ganllawiau Gweinidogion Cymru a ragddodir ag C. Er enghraifft:

> **Canllaw ar gyfer Safon S3 – Ansawdd Dŵr**
>
> C3.1 Gall dŵr ffo o ffyrdd, amgylcheddau masnachol a threfol eraill, yn benodol, gynnwys graean, gwaddodion, olew a hydrocarbonau polyaromatig (PAHau), metalau a halwynau toddedig ac y mae gan bob un o'r rhain y potensial i achosi llygredd dŵr wyneb neu ddŵr daear sy'n derbyn. Gall SuDS fod yn effeithiol i leihau amrywiaeth eang o'r llygrynnau hyn trwy alluogi gwaddodi, hidlo ac amrywiaeth o brosesau ffotolytig, cemegol a biolegol.

2.12 Diben y Canllawiau yn y Safonau SDCau Statudol yw egluro bwriadau'r Safonau. Mae amrywiaeth eang o dechnegau y gellir eu defnyddio wrth ddylunio cynllun draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiad, a dylai ceiswyr fod yn barod i ddangos sut maent wedi cydbwyso'r Egwyddorion a'r Safonau â chyfyngiadau safle penodol.

2.13 Am fanylion am yr amrywiaeth o ddatrysiadau sydd ar gael, dylai dylunwyr ystyried y Llawlyfr cynhwysfawr ar SDCau a'r Canllawiau ar Adeiladu SDCau a gyhoeddwyd gan CIRIA. [6]

[6]Mae Llawlyfr SDCau CIRIA ar gael yn: https://www.ciria.org/Resources/Free_publications/SuDS_manual_C753.aspx

.

2.14 Mae'n bwysig nodi nad yw'r Safonau SDCau Statudol yn gwahardd unrhyw dechneg ddraenio benodol. Ond maent yn pwysleisio mai datrysiadau sy'n agos i'r tarddle ac sydd ar yr wyneb sy'n cael eu ffafrio, sy'n sicrhau nifer o fanteision drwy'r egwyddorion a'r hierarchaeth yn S1. Mae hyn yn gyson â'r dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth a llesiant amgylcheddol, cymdeithasol economaidd a diwylliannol Cymru.

2.15 Mae'r Safonau SDCau Statudol yn annog amrywiaeth o dechnegau SDCau sy'n gallu helpu i gynyddu mynediad i fannau gwyrdd a darparu cyfleusterau cymunedol i ddod â phobl ynghyd megis gwlyptiroedd, pantiau, pyllau a systemau o dan lystyfiant neu hyd yn oed waliau a thoeau gwyrdd. Pwysleisir hyn fel dewis gorau" i atal salwch meddwl a gwella llesiant meddyliol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae astudiaethau hefyd yn awgrymu bod pobl sy'n byw'n agosach at fannau gwyrdd o ansawdd da yn fwy tebygol o ymgymryd â lefelau uwch o weithgarwch corfforol, yn fwy tebygol o ddefnyddio'r mannau ac yn gwneud hynny'n amlach.

## Dylunio a chyflwyno SDCau sy'n cynnig manteision lluosog

2.16 Mae'r diffiniad o ddraenio cynaliadwy a nodwyd mewn deddfwriaeth a'r safonau statudol ar gyfer draenio cynaliadwy yn pwysleisio bod angen i SDCau sicrhau mwy na rheoli cyfaint y dŵr wyneb yn unig.[7] Nod y canllawiau yw hwyluso ac arwain y corff cymeradwyo ac eraill wrth iddynt nodi a fydd cynnig ar gyfer system ddraenio gynaliadwy yn sicrhau manteision lluosog, a sut[8].

### Ar lefel cynllunio strategol

2.17 Mae'n bwysig bod gwaith cynllunio strategol yn darparu ar gyfer SDCau gan sicrhau bod lle o fewn datblygiad fel y gellir cynnwys nodweddion wyneb sy'n fwy tebygol o sicrhau manteision lluosog ac nad oes rhaid "gwasgu" SDCau i mewn na chyfaddawdu.

2.18 Lle y caiff safleoedd mawr iawn eu nodi ar gyfer datblygiadau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n debygol o gynnwys cwmnïau gwahanol sy'n datblygu gwahanol barseli o dir ar yr un safle, bydd buddiannau pennaf preswylwyr yn y dyfodol (yn ogystal â'r corff cymeradwyo) yn cael eu parchu os caiff SDCau eu dynodi drwy ystyried y safle cyfan, yn hytrach na pharseli ar wahân o dir.

2.19 Mae deall lle y gall SDCau sicrhau manteision lluosog ar y lefel strategol yn bwysig er mwyn deall effaith datblygiad a SDCau ar raddfa tirwedd a dalgylch a lliniaru effeithiau cronnol unrhyw ddatblygiad.

[7] Mae Lla SDCau CIRIA ar gael gan: https://www.ciria.org/CIRIA/CIRIA/Item_Detail.aspx?iProductCode=C753
[8] Gweler paragraff 2 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010 ar gyfer y diffiniad o 'draenio cynaliadwy'.

**Nodi SDCau amlfanteisiol mewn ceisiadau**

2.20 Wrth nodi'r opsiynau amlfanteisiol sydd ar gael mewn datblygiad mae'n bwysig cynnwys dylunio ar gyfer manteision lluosog o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ag arbenigedd lleol perthnasol, megis partneriaethau dalgylch ac arfordirol, ymddiriedolaethau bywyd gwyllt lleol ac ecolegwyr. Bydd modd cael y canlyniadau gorau os gwneir hyn i ddechrau ar y prif gam cynllunio, os oes un, neu fel arall ar y cam cyn gwneud cais.

2.21 Gall SDCau amlfanteisiol gynnig mwy o fanteision na chostau hyd yn oed ar y safleoedd mwy cyfyngedig o gael eu hystyried â'r arbenigwyr cywir o'r cychwyn cyntaf.

2.22 Wrth asesu a yw manteision lluosog wedi cael eu hintegreiddio'n effeithiol mewn datblygiad, dylai'r corff cymeradwyo ystyried a yw'r canlynol wedi cael ei asesu a'i gynnwys yn briodol wrth ddylunio'r SDCau:

- anghenion ecolegol a hydrolegol ar y safle a'r ardal o'i amgylch
- cyfleoedd ymarferol a gynigir gan nodweddion dŵr a ffurfiau tir sy'n bodoli eisoes
- materion o ran ansawdd dŵr (gallai hyn gynnwys agosrwydd i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, neu ACAau)
- anghenion defnyddwyr y safle a'r gymuned o'i amgylch
- anghenion seilwaith gwyrdd strategol
- cyfleoedd i greu ac adfer cynefinoedd, neu eu cysylltu'n ecolegol
- cyfleoedd i gyfuno SDCau â thirlunio, hamdden, teithio llesol, a darpariaeth chwarae.

2.23 Os nad achubwyd ar gyfleoedd i sicrhau manteision lluosog, rhaid i ddadl gadarn dros y penderfyniad gael ei chyflwyno. Gallai meini prawf ar gyfer hyn gael eu datblygu gan y corff cymeradwyo er mwyn sicrhau dull teg a safonol a sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau yn dryloyw. Dylai'r meini prawf hyn gael eu datblygu drwy ddefnyddio arbenigedd mewnol megis swyddogion bioamrywiaeth a thrwy ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol megis Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn bwysig ddigon, hyd yn oed gyda chyfyngiadau ymdreiddio, bydd modd o hyd ddefnyddio amrywiaeth eang o SDCau megis toeau gwyrdd a blychau gardd glaw sy'n gallu sicrhau manteision lluosog. Nid yw cyfyngiadau ymdreiddio yn rheswm dilys ar ei ben ei hun i ddatblygiad beidio ag ymgorffori SDCau amlfanteisiol.

2.24 Dylai dadansoddiad cost a budd gynnwys asesiad llawn o gostau a manteision cymdeithasol ac amgylcheddol. Dylid ei ystyried ochr yn ochr â'r angen i SDCau gyrraedd safonau eraill a argymhellir mewn deddfwriaeth, megis y safonau ar gyfer mannau gwyrdd hygyrch yn Nodyn Cyngor Technegol 16 Polisi Cynllunio Cymru ar Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored. [9] Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn deall hyfywedd. Rydym

[9] Nodyn Cyngor Technegol 16 Polisi Cynllunio Cymru ar Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored, sydd ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adeiladu-a-chynllunio

yn cynghori y dylai cyrff cymeradwyo hyrwyddo dull safonol o wneud dadansoddiad cost a budd er mwyn sicrhau bod pob datblygwr yn cael ei drin yr un fath a'i gwneud yn haws deall ble mae lllwybrau byrion yn cael ei dilyn. Bydd bylchau ym mhob dadansoddiad cost a budd ac mae'n bwysig deall y gwendidau penodol wrth brisio costau neu fanteision penodol mewn unrhyw ddull safonol a fabwysiedir. Mae hyn yn dderbyniol cyhyd â bod y gwendidau hynny yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi datblygu cryn dipyn o lenyddiaeth ar ddadansoddi cost a budd. [10]

**Sicrhau hirhoedledd manteision lluosog**

2.25 Mae angen i gynigion ar gyfer cynllun cynnal a chadw gael eu cyflwyno gan y datblygwr ar y cyd â'r cais i gael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo. [11] Yn aml, mae nodweddion wyneb a'r rhai sy'n cynnig manteision lluosog yn symlach i'w rheoli nag opsiynau draenio traddodiadol a noddweddion o dan y wyneb. Fodd bynnag, mae angen iddynt gael eu rheoli er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n briodol; bod manteision lluosog yn parhau i gael eu sicrhau; ac y parheir i gydymffurfio â safonau cenedlaethol. Fel y cyfryw, rydym yn argymell bod y cynllun cynnal a chadw yn cynnwys cynigion i reoli'r system ddraenio gynaliadwy mewn ffordd sy'n cefnogi'r broses ymarferol o sicrhau manteision lluosog.

2.26 Er enghraifft, cynnal amrywiol lefelau o uchder gwndwn at ddibenion bioamrywiaeth neu ddefnyddio llystyfiant yn hytrach na ffensys i osgoi damweiniau. Rhaid i'r cynllun cynnal a chadw nodi'n glir y manteision lluosog a gynigir gan y system ddraenio gynaliadwy a'r ffordd orau o'u rheoli er mwyn hwyluso gwaith cynnal a chadw.

2.27 Mabwysiadu a chyllido – Dylai unrhyw gynllun cynnal a chadw gynnwys amcanion ynglŷn â chynnal y manteision lluosog a gynigir gan y system ddraenio gynaliadwy (fel y'u nodwyd yn y cynllun cynnal a chadw). Dylai cynlluniau cynnal a chadw hefyd gynnwys cytundeb ar gyfer mesurau bioddiogelwch digonol er mwyn atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag ymledu. Mae angen i gyllido ystyried cynnal manteision lluosog.

2.28 Monitro ac adrodd – dylai unrhyw broses o fonitro ac adrodd ar y cynllun cynnal a chadw sy'n cael ei goruchwylio gan y corff cymeradwyo ddangos bod y manteision lluosog a nodwyd yn y cynllun cynnal a chadw yn cael eu sicrhau. Efallai y bydd y corff cymeradwyo yn dymuno cytuno ar broses monitro ac adrodd briodol â'r datblygwr.

2.29 Ymgysylltu â'r gymuned – mae'n bwysig bod y gymuned yn deall y manteision lluosog y mae'r system ddraenio gynaliadwy yn eu cynnig er mwyn cael cefnogaeth y gymuned i'r cynlluniau. Os bydd cymuned yn teimlo'n falch o'i mannau gwyrdd, mae'n fwy tebygol o lwyddo i sicrhau manteision lluosog yn yr hirdymor. Ymhlith y dulliau gweithredu posibl mae

[10] Mae Adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar Ddadansoddi Cost a Budd a'r Amgylchedd ar gael yn: http://www.oecd.org/env/tools-evaluation/cost-benefitanalysisandtheenvironmentrecentdevelopments.htm
[11] Gweler yr Egwyddorion yn adran 2 o'r Safonau SDCau Statudol.

arwyddion i esbonio sut mae’r system yn gweithio a chynnwys yr ysgol/grŵp cymunedol lleol yn y broses o ddylunio, plannu neu hyd yn oed gynnal a chadw’r cynllun.

## Ymgysylltu â chymunedau a deiliaid

2.30 Mae’r newid i ofyniad i ddefnyddio SDCau ar gyfer datblygiadau newydd wedi dechrau newid ymddangosiad y datblygiadau hyn a dod â phobl yn agosach at eu hamgylchedd lleol. Mae “ailgysylltu” pobl â dŵr yn y fath fodd yn un o ganlyniadau pwysig rhoi SDCau ar waith ond mae’n gofyn am ddatblygu dull gweithredu cyffredin o gyfathrebu ynglŷn â SDCau a’u manteision.

2.31 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff cymeradwyo a grwpiau eraill â buddiant i ddatblygu adnoddau addas i gymunedau a deiliaid yn benodol.

2.32 Bydd yn bwysig hefyd bod y rhai sydd â safleoedd un fangre yn unig, lle mae’r system yn esempt rhag y ddyletswydd i fabwysiadu ac nad ydynt yn cael eu mabwysiadu’n wirfoddol gan y corff cymeradwyo, yn deall eu cyfrifoldebau am gynnal a chadw a goblygiadau methu â gwneud gwaith cynnal a chadw priodol. Rydym yn cynnig y dylid gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu adnoddau addas y gellir eu rhannu ledled Cymru.

## Esemptiadau rhag yr angen i gael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo

2.33 Nid oes angen cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo ar gyfer:

- Datblygiad a ganiateir sy’n ymestyn dros ardal o dir o lai na 100 metr sgwâr. [12]
- Datblygiadau â goblygiadau o ran draenio lle mae’r gwaith adeiladu yn ymestyn dros ardal o dir o lai na 100 metr sgwâr, neu
- Yn achos unrhyw fath arall o waith adeiladu, mae’r ardal o dir yn llai na 100 metr sgwâr. [13]

2.34 Mae Atodlen 3 i Ddeddf 2010 yn esemptio gwaith y mae angen iddo gael caniatâd datblygu fel prosiect seilwaith o arwyddocad cenedlaethol rhag yr angen i gael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo. [14]

2.35 Mae Deddf 2010 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion ynglŷn ag esemptiadau pellach. [15] Mae’r gwaith adeiladu canlynol yn esempt rhag yr angen i gael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo: [16]

[12] Gweler Erthygl 4 o Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[13] Gweler Erthygl 6 o Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[14] Gweler paragraff o 7(3) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010, sy’n esemptio datblygiadau y mae angen iddynt gael caniatâd datblygu o dan adran 31 o Ddeddf Cynllunio 2008.
[15] Gweler paragraff 7 (4)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[16] Gweler erthygl 3 o’r Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.

- gwaith adeiladu a gyflawnir gan fwrdd draenio mewnol wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991;
- gwaith adeiladu a gyflawnir at ddiben adeiladu, neu mewn cysylltiad ag adeiladu—

  (i) ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod priffyrdd ar ei chyfer, neu
  (ii) rheilffordd gan Network Rail.

**Cyfyngiadau ac eglurder ynglŷn â'r esemptiadau ar gyfer ffyrdd a rheilffyrdd**

2.36 Mae pob ffordd newydd sydd i'w mabwysiadu a'i chynnal a'i chadw gan Lywodraeth Cymru yn parhau'n esempt rhag deddfwriaeth sy'n ymwneud â SDCau statudol, yn benodol traffyrdd a chefnffyrdd (prif ffyrdd A). Fodd bynnag, ni fydd unrhyw ffyrdd sy'n cael eu creu fel rhan o brosiect priffordd newydd gan Lywodraeth Cymru (h.y. un sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru), sy'n berchen i awdurdod priffyrdd lleol neu sy'n cael eu mabwysiadu gan awdurdod priffyrdd lleol (neu berchennog tir arall) wedi eu hesemptio rhag y ddeddfwriaeth ac mae'n bosibl y byddant yn destun camau gorfodi os na cheir cymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo cyn iddynt gael eu hadeiladu.

2.37 Bydd unrhyw reilffordd newydd sy'n cael ei gosod gan Network Rail yn esempt rhag y ddeddfwriaeth ynglŷn â SDCau statudol[17], ond yn benodol dim ond y cledrau a'r gwely. Ni fydd unrhyw gyfleusterau cysylltiedig eraill, gan gynnwys adeiladau gorsaf, platfformau, toeau, neu ardaloedd parcio ceir (etc.), yn esempt rhag y ddeddfwriaeth ac mae'n bosibl y byddant yn destun camau gorfodi os na cheir cymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo cyn iddynt gael eu hadeiladu.

## SDCau sy'n amodol ar gymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo ond nad ydynt yn cael eu mabwysiadu

2.38 Yn amodol ar yr esemptiadau rhag yr angen am gymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo, mae'r corff cymeradwyo yn cymeradwyo system ddraenio gynaliadwy ond nad yw'n ei mabwysiadu os yw'r cynllun:

- Yn gwasanaethu eiddo unigol. [18]
- Yn ffordd a gynhelir yn gyhoeddus y mae adran 41 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn gymwys iddi. [19]

[17] Gweler Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018 (Erthygl 3(2)(b)(ii)).
[18] Gweler paragraff 18 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010 ac am y diffiniad o eithriad eiddo unigol gweler Rheoliad 9 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[19] Gweler paragraff 19 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

## Cysylltu â'r prosesau presennol – adrannau Cynllunio, Priffyrdd a Pharciau

2.39 Mae'n bwysig, pa fodd bynnag y caiff dyletswydd y corff cymeradwyo ei chyflawni, fod y rhai sy'n gyfrifol am ei waith cyflawni yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes cynllunio, priffyrdd, parciau a chydweithwyr perthnasol eraill ym mhob awdurdod lleol. Mae dyletswyddau cymeradwyo a mabwysiadu cyrff mabwysiadu SDCau yn brosesau cymeradwyo technegol sy'n debyg i gymeradwyaeth dechnegol o dan Reoliadau Adeiladu yn hytrach na phenderfyniadau cynllunio.

2.40 Er bod Atodlen 3 i Ddeddf 2010 yn caniatáu i geisiadau cynllunio a cheisiadau ynglŷn â SDCau gael eu cyflwyno ar y cyd, mae'n bwysig bod y gwahaniaeth rhwng prosesau cymeradwyo'r corff cymeradwyo a phrosesau cynllunio yn cael ei ddeall yn glir. Nid yw'r naill broses yn dibynnu ar ganlyniad y llall. Er enghraifft, efallai y bydd cynnig datblygu yn cael cymeradwyaeth gynllunio ond ni fydd yn bodloni gofynion proses y corff cymeradwyo ac fel arall.

2.41 Mae Nodyn Cyngor Technegol 15 ar Ddatblygu, llifogydd ac erydu arfordirol (TAN15) yn cynghori y dylid osgoi sefyllfa lle mae datblygiad yn cael caniatâd cynllunio, ond mae corff cymeradwyo yn gwrthod ei gymeradwyo, neu fel arall, lle bynnag y bo modd.

2.42 Er mwyn osgoi'r senarios hyn, mae'n bwysig bod gofynion y corff cymeradwyo yn cael eu hystyried mor gynnar â phosibl yn ystod y broses ddatblygu ac ochr yn ochr â gofynion cynllunio. Y ffordd orau o sicrhau hyn yw drwy wneud cais am gymeradwyaeth y corff cymeradwyo a chaniatâd cynllunio ar yr un pryd, naill ai fel ceisiadau unigol ar wahân neu fel un cais ar y cyd.

2.43 Pan fydd caniatâd cynllunio yn cael ei geisio cyn cael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo, dylid rhoi Datganiad Draenio, fel y'i nodwyd yn TAN15, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Argymhellir yn gryf y dylid ceisio ymgysylltu â'r corff cymeradwyo ar gam cynnar drwy wasanaethau cyngor cyn gwneud cais er mwyn sicrhau bod y Datganiad Draenio yn cael ei ddatblygu yn unol â'r Safonau Statudol ac unrhyw ofynion gan y corff cymeradwyo lleol er mwyn helpu i leihau'r risg o fethu â chael pob caniatâd neu'r risg o oedi o ganlyniad i ailgynllunio datblygiad. Gall Datganiadau Draenio sydd ar goll, sy'n annigonol neu sy'n cynnwys diffygion sylfaenol fod yn rheswm i ACLl wrthod y cais cynllunio.

2.44 Mae angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer unrhyw ddatblygiad sydd wedi'i leoli'n llwyr neu'n rhannol mewn Parthau Llifogydd Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach 2 a 3. Caiff awdurdodau lleol arfer rhywfaint o ddisgresiwn yn achos ceisiadau eiddo / deiliad tŷ unigol lle y gall y risg fod yn is oherwydd natur y datblygiad a gynigir a dylai gofynion yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd fod yn gymesur â'r cynnig datblygu. Dylid cynnal Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd hefyd ar gyfer datblygiadau ar safleoedd y tu allan i'r parthau hyn, ond a allai effeithio ar gwrs dŵr wyneb a /neu ddŵr gormodol o gyrsiau dwr arferol.

2.45 Fel arfer, bydd y lefel hon o ddisgresiwn a gofynion ychwanegol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth rhwng yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, y corff cymeradwyo a'r ACLl. Caiff awdurdodau lleol gyhoeddi canllawiau pellach ynglŷn â phryd na fydd angen Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd, dulliau cymesur o ymdrin â gofynion Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd ac Ardaloedd Draenio Hanfodol ychwanegol neu lle mae effaith bosibl ar Ased Perygl Llifogydd Hanfodol (er enghraifft, SDCau sydd eisoes wedi'u mabwysiadu, cyrsiau dŵr wedi'u cwlfertu â phroblemau cymhwysedd hysbys, a strwythurau neu nodweddion naturiol sydd wedi'u dynodi o dan Atodlen 1 i'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr).

2.46 Mae gwybodaeth am leoliad Asedau Perygl Llifogydd Hanfodol ar gael i'w gweld ar Gronfa Ddata Asedau Llifogydd Genedlaethol CNC. Fodd bynnag, argymhellir y dylid paratoi ceisiadau cynllunio a cheisiadau i gyrff cymeradwyo ar yr un pryd fel y'i nodir uchod neu ymgysylltu â'r corff cymeradwyo drwy wasanaethau cyngor cyn gwneud cais os yw'r gwaith cynllunio yn mynd rhagddo cyn cael cymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo ar gyfer unrhyw ddatblygiadau mewn Parthau Llifogdd Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach 2 a 3 neu yng nghyffiniau Ardaloedd Draenio Hanfodol neu Asedau Perygl Lllifogydd Hanfodol.

2.47 Gall Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd sydd ar goll, sy'n annigonol neu sy'n cynnwys diffygion sylfaenol fod yn rheswm i ACLl wrthod y cais cynllunio.

2.48 Dylid ystyried draenio ar y camau cynharaf wrth ddylunio safle er mwyn dylanwadu ar drefn ffyrdd, adeiladau a mannau agored.

2.49 Bydd angen i ddarpar brynwyr eiddo newydd, gan gynnwys y rhai sy'n prynu 'oddi ar y cynllun', wybod a fydd y carthffosydd, y briffordd, ffyrdd a SDCau yn cael eu mabwysiadu. Bydd angen i awdurdodau lleol allu ymateb i ymholiadau rheolaidd o'r fath.

**Cynllunio**

2.50 Gellir sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer SDCau drwy gydweithio rhwng y corff cymeradwyo ac awdurdodau cynllunio lleol. Dylai datblygwyr ddangos cydymffurfedd â'r Safonau SDCau Statudol a pholisi lleol wrth gyflwyno ceisiadau cynllunio.

2.51 Mae'n debygol y bydd rôl o hyd ar gyfer rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau adran 106 o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sydd â'r nod o sicrhau bod trefniadau draenio digonol ar gyfer dŵr wyneb a dŵr brwnt/budr ar waith.

**Datblygiad Priffordd**

2.52 Gellir sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer SDCau drwy gydweithio rhwng y corff cymeradwyo ac Awdurdodau Priffyrdd. Mae'n ofynnol i briffyrdd sy'n cael eu cynllunio gan ddatblygiadau newydd gydymffurfio â'r

Safonau SDCau Statudol (oni bai eu bod yn esempt). Mae’r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd ystyried mabwysiadu SDCau a gymeradwyir gan y corff cymeradwyo. Pan fo awdurdod priffyrdd yn mabwysiadu ffordd y gellir ei chynnal a’i chadw ar draul y cyhoedd, rhaid iddo weithredu yn unol â’r dyluniad draenio cymeradwy, gan gynnwys y drefn cynnal a chadw, mewn cydymffurfedd â’r Safonau SDCau Statudol. Dylid adolygu polisïau mabwysiadu priffyrdd i adlewyrchu hyn.

2.53 Mae’r corff cymeradwyo yn esempt rhag mabwysiadu unrhyw ran o system ddraenio gynaliadwy y mae’r awdurdod priffyrdd eisoes yn gyfrifol amdano neu y gallai fod yn gyfrifol am ei chynnal a’i chadw.

**Man agored cyhoeddus**

2.54 Gellir sicrhau’r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer SDCau drwy gydweithio rhwng y corff cymeradwyo ac adrannau awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am barciau, hamdden, mannau gwyrdd, bioamrywiaeth, a chefn gwlad. Mae’r Safonau SDCau Statudol yn annog SDCau o ansawdd da (megis gwlyptiroedd, pantiau, pyllau a SDCau o dan lystyfiant) a all helpu i wella mynediad i fannau gwyrdd.

**Budd Net i Fioamrywiaeth a chyrraedd y Safon ynglŷn â Bioamrywiaeth**

2.55 Mae Safon 5 o’r Safonau SDCau Statudol (y Safon ynglŷn â Bioamrywiaeth) yn nodi sut y dylai SDCau sydd wedi’u dylunio’n dda wella a diogelu cynefinoedd bywyd gwyllt presennol, y defnydd o blannu brodorol, creu nodweddion sy’n cefnogi bywyd gwyllt, a chyfrannu at wydnwch yr ecosystem ehangach fel rhan o ddyluniad draenio amlswyddogaethol.

2.56 O dan y broses gynllunio yng Nghymru, disgwylir i bob datblygiad newydd sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth mesuradwy a diogelu bywyd gwyllt a chynefinoedd presennol, a disgwylir i SDCau gynnig manteision ychwanegol yn y maes hwn.

2.57 Mae’r cyfeiriad yn dod yn gryfach fyth, fel y dengys Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) a gwblhaodd Gam 4 ym mis Chwefror 2026, ac sy'n ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yn y broses o wneud penderfyniadau ac yn cryfhau dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i gynnal a gwella bioamrywiaeth Bydd hyn yn rhoi mwy o bwys ar y disgwyliadau sydd eisoes yn rhan o’r Safon ynglŷn â Bioamrywiaeth a chodi’r safon ar gyfer cydymffurfedd hyd yn oed yn uwch.

2.58 Ar adeg cyhoeddi, mae’n ofynnol i ddatblygwyr a chyrff cymeradwyo ddehongli Safon 5 yng nghyd-destun:

- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** – sy’n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

- **Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy** – gorfodi dylunio sy'n seiliedig ar natur ac a arweinir gan ecosystemau.
- **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12)** – sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu sicrhau *budd net i fioamrywiaeth*.
- **Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru** – sy'n pennu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer adfer cynefinoedd a rhywogaethau.

2.59 Gyda'i gilydd, mae'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol yn sefydlu disgwyliad clir y dylai SDCau fynd y tu hwnt i weithgarwch lliniaru a diogelu syml a sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth mesuradwy, parhaol, sy'n cael eu cynnal i fioamrywiaeth. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i SDCau chwarae rôl weithredol o ran gwella cydnerthedd ecolegol a chyfrannu'n gadarnhaol at amcanion adfer natur ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol.

2.60 Mae sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth yn effeithiol yn dechrau â dealltwriaeth drylwyr o ecoleg bresennol safle. Felly, dylai cynigion dylunio ddangos sut mae asedau ecolegol yn cael eu diogelu a, lle y bo modd, eu cryfhau, gan roi ystyriaeth ofalus i bresenoldeb cynefinoedd, rhywogaethau, a rhwydweithiau ecolegol presennol. Dylai nodweddion SDCau gael eu hintegreiddio mewn ffordd sensitif â'r dirwedd ehangach i gefnogi cysylltedd a chydnerthedd ecosystemau, a dylai eu cyfraniad at flaenoriaethau Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru gael ei fynegi'n glir.

2.61 Yn ychwanegol at ddiogelu, disgwylir i SDCau gynnig gwelliannau gweladwy i fioamrywiaeth. Dylent gael eu llunio fel elfennau amlswyddogaethol o seilwaith gwyrdd, sy'n gallu cynnal bywyd gwyllt yn ogystal â rheoli dŵr wyneb. Gall cyfleoedd gynnwys creu gwlyptiroedd, pyllau, pantiau, a basnau sy'n gweithredu fel cynefinoedd, y defnydd o blannu brodorol a phlannu sy'n briodol yn lleol er mwyn cynnal pryfed peillio a rhywogaethau â blaenoriaeth, ac ymgorffori strwythurau a microgynefinoedd amrywiol megis llystyfiant ymylol, pren marw, a newidiadau yn nyfnder dŵr. Dylai unrhyw welliannau a gynigir fod yn gymesur â graddfa a chyd-destun y datblygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn gysylltiedig yn amlwg â chyfleoedd ecolegol a nodwyd.

2.62 Dylai ystyriaethau bioamrywiaeth ffurfio dyluniadau SDCau o'r camau cynharaf yn hytrach na chael eu hatodi ar ôl pennu trefn y safle. Dylai arolygon ac asesiadau ecolegol lywio lleoliad, ffurf a swyddogaeth nodweddion SDCau, gyda ffafriaeth gref o blaid systemau agored naturiol yr olwg yn hytrach na datrysiadau wedi'u peiriannu neu ddatrysiadau o dan y ddaear lle bynnag y bo'n ddichonadwy. Dylai cynigion hefyd ddangos sut mae SDCau yn cyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd ehangach y tu hwnt i ffiniau'r safle, sy'n atgyfnerthu eu rôl o ran sicrhau manteision amgylcheddol strategol.

2.63 Mae llwyddiant hirdymor SDCau o ran sicrhau manteision bioamrywiaeth yn dibynnu ar gyfundrefn rheoli a gwarchod briodol. Felly, disgwylir i ddatblygwyr nodi sut y bydd swyddogaethau ecolegol yn cael eu cynnal dros amser, gan gynnwys drwy ddarparu Cynllun Rheoli Tirwedd ac

Ecolegol sy’n cyd-fynd â gofynion SDCau. Pan fydd cynefinoedd yn cael eu creu neu eu gwella, dylai trefniadau monitro fod yn gymesur â’u graddfa a’u sensitifrwydd, gan sicrhau bod buddiannau bioamrywiaeth bwriadedig yn cael eu cynnal ac y gellir eu dangos dros oes y datblygiad.

## Pennu ffioedd a safonau gwasanaeth cyrff cymeradwyo

### Sicrhau bod ffioedd cyrff cymeradwyo yn deg ac yn werth da am arian

2.64 Ar adeg cyhoeddi, erys ffioedd cyrff cymeradwyo fel yr oeddent pan y’u pennwyd yn gyntaf yn 2019 ac nid ydynt wedi cynyddu yn unol â chwyddiant na ffactorau cost eraill.

2.65 Ar adeg cyhoeddi, mae opsiynau ar gyfer diwygio ffioedd cyrff cymeradwyo yn cael eu hystyried fel rhan o waith Cymuned Ymarfer SDCau a arweinir gan Lywodraeth Cymru (grŵp rhanddeiliaid allanol sy’n cynrychioli datblygu, CLILC, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill). Megis cychwyn y mae’r gwaith hwn a bydd yn rhoi adroddiad i Weinidogion Cymru cyn bod unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud neu unrhyw gamau yn cael eu cymryd i ddiwygio’r ffioedd.

2.66 Ein hamcan yw sicrhau bod y taliadau a godir yn deg i geiswyr ac awdurdodau lleol. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod cyfanswm y taliadau a godir am eu gwasanaethau yn adennill costau ond dylai taliadau fod roi gwerth da am arian i ddatblygwyr ar raddfa fach a datblygwyr mawr.

2.67 Gofynnwyd i awdurdodau lleol baratoi adroddiadau blynyddol ar gyflawni eu swyddogaeth fel corff cymeradwyo i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn llywio ein trefniadau ar gyfer monitro safonau gwasanaeth cyffredinol a phennu ffioedd yn y dyfodol.

2.68 Bydd unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau sy’n berthnasol i ffioedd cyrff cymeradwyo a safonau gwasanaeth eu cyhoeddi ar dudalennau SDCau ar wefan Llywodraeth Cymru.

# Adran 3: Cymeradwyo SDCau

Atodir crynodeb o'r broses o wneud cais ar gyfer system ddraenio gynaliadwy yn **Atodiad 2**.

## Cyn gwneud cais am gymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo

### Llunio datblygiad newydd

3.1 Mae rhoi SDCau ar waith ar ddatblygiadau newydd yn gofyn am newid sylfaenol o ran sut y caiff draenio ei ystyried.

3.2 Bwriedir i SDCau sicrhau'r cyfleoedd a'r manteision gorau posibl y gellir eu cynnig drwy reoli dŵr wyneb yn effeithiol. Dim ond pan fydd egwyddorion SDCau yn cael eu hystyried yn hanfodol i'r ymarfer dylunio o'r **cychwyn cyntaf yn y broses ddatblygu, ar y cam cysyniadol**, y gellir cyflawni hyn.

3.3 Bydd y dull o reoli dŵr wyneb drwy SDCau yn cyfeirio'r broses ddatblygu ac yn llywio trefn datblygiadau newydd ar sail draenio safleoedd. Bydd rhoi SDCau ar waith yn effeithiol ar safle datblygu yn gofyn am ddull gweithredu cydgysylltiedig gan yr awdurdod lleol mewn sawl disgyblaeth, a dylid ystyried cynnwys peirianwyr draenio/perygl llifogydd, penseiri tirwedd, peirianwyr priffyrdd, staff bioamrywiaeth ac amwynder, rheoli adeiladu a chynllunwyr ar gam cynnar yn allweddol i sicrhau SDCau effeithiol o ansawdd.

3.4 Mae angen i'r rhai sy'n cynllunio unrhyw system draenio dŵr wyneb, gan gynnwys cynlluniau SDCau, ystyried ystod o ddeddfwriaeth. Ceir canllawiau pellach ar y cysylltiadau rhwng SDCau a deddfwriaeth berthnasol arall yn y Safonau SDCau Statudol o dan yr adran ar Ddraenio Cynaliadwy – y Fframwaith Rheoleiddio.

### Ymgysylltu ar gam cynnar

3.5 Dylai'r corff cymeradwyo weithio gyda chynllunwyr, adrannau priffyrdd ac eraill, megis ymgymerwyr carthffosiaeth, i annog trafodaeth cyn gwneud cais cyn bod ceisiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno. Dylai fod pwyslais ar weithio mewn partneriaeth i ddwyn ynghyd bawb sy'n ymwneud â'r broses ar gam cynnar yn ystod datblygiad safle. Bydd hyn yn allweddol i gyflawni'r gwaith cynllunio angenrheidiol, cymeradwyaeth y corff cymeradwyo a chymeradwyaethau eraill a rhoi SDCau effeithiol sy'n cydymffurfio ar waith yn llwyddiannus.

3.6 Mae trafodaethau cyn gwneud cais sy'n cynnwys pob parti â diddordeb yn rhoi cyfle i ddatrys blaenoriaethau croes o bosibl, er mwyn ystyried problemau ymhellach i lawr y system a'r potensial ar gyfer lliniaru problemau mewn mannau eraill. Gallant ddylanwadu ar gynigion i gydymffurfio â safonau cenedlaethol a pholisi lleol. Gall trafodaethau cyn gwneud cais helpu i sicrhau bod ceisydd yn gwbl ymwybodol o ofynion ar y cychwyn, a thrwy hynny gyfyngu ar oedi cyn cael cymeradwyaeth a lleihau costau yn yr hirdymor. Bydd y corff cymeradwyo yn aml yn meddu ar

wybodaeth leol am asedau, perygl llifogydd, cyfyngiadau ar ansawdd dŵr neu gyd-destun ecolegol y gallant ei chynnig yn ystod trafodaethau cyn gwneud cais.

3.7 Dylai'r corff cymeradwyo annog datblygwyr ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y cyfle cyntaf posibl yn ystod y camau cyn gwneud cais; dylid ceisio cyngor gan yr awdurdod lleol fel y corff cymeradwyo, yr awdurdod cynllunio lleol (ACLl), yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol a chan bartïon perthnasol megis ymgyngoreion statudol. Er y gall rhai cyrff godi tâl am gyngor cyn gwneud cais, rydym o'r farn ei bod yn werth buddsoddi ar y cam hwn er mwyn atal oedi yn ddiweddarach.

3.8 Bydd ymgysylltu'n gynnar ag ymgymerwyr carthffosiaeth yn galluogi datblygwyr i lunio barn holistaidd am ddylunio systemau draenio dŵr budr a dŵr wyneb. Mae trafodaethau o'r fath yn arbennig o bwysig os bydd y dŵr wyneb yn mynd i mewn i'r rhwydwaith ar unrhyw gam. Os yw'r datblygwr am gysylltu system dŵr wyneb â'r garthffos gyhoeddus, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhaid iddo nodi hynny'n benodol yn ei gynigion sydd i'w cymeradwyo gan y corff cymeradwyo. [20]

3.9 Efallai y bydd graddau'r cyngor a'r cymorth sydd eu hangen ar ddatblygwyr yn amrywio. Yn benodol, efallai y bydd datblygwyr bach yn llai cyfarwydd â chysyniadau SDCau ac y bydd yn fwy anodd iddynt gael gafael ar gyngor arbenigol. Efallai y byddant yn amharod i geisio ymgysylltu ar gam cynnar. Efallai y bydd yn briodol i gyrff cymeradwyo baratoi canllawiau syml sy'n addas i ddatblygwyr bach anfynych o'r fath.

3.10 Gall yr awdurdod lleol (sydd hefyd yn gorff cymeradwyo) ddewis defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddo o dan ddeddfwriaeth arall[21] i geisio adennill costau y mae'n mynd iddynt am gyflawni swyddogaethau corff cymeradwyo ond nad ydynt wedi'u cwmpasu gan ffi'r cais, megis cyngor cyn gwneud cais.

## Ymgynghori ag ymgyngoreion statudol ac anstatudol

3.11 Mae'n ofynnol i'r corff cymeradwyo ymgynghori â chyrff penodol pan fydd cais am system ddraenio gynaliadwy effeithio ar yr ymgynghorai hwnnw. [22]

3.12 Yr ymgyngoreion yw:

- Cyfoeth Naturiol Cymru, [23]
- unrhyw ymgymerwr carthffosiaeth yr effeithir ar ei garthffos gyhoeddus o bosibl,
- Glandŵr Cymru,
- yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol.

[20] Gweler paragraff 16 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010, sy'n ychwanegu adran 106A newydd (draenio cynaliadwy) i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.
[21] Megis, er enghraifft, adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.
[22] Gweler paragraff 11(3) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[23] Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r “corff draenio” o dan adran 72 o Ddeddf Draenio Tir 1991.

3.13 Rhoddwyd rôl statudol i'r cyrff hyn er mwyn cydnabod effaith bosibl gollyngiadau draenio dŵr wyneb ar eu hasedau neu eu buddiannau rheoleiddiol. Er mwyn osgoi oedi amhriodol yn y broses gymeradwyo ac at ddibenion yr ymgynghoriad, bydd y corff cymeradwyo am ystyried anghenion ymgyngoreion statudol am wybodaeth a'r ffordd orau o rannu'r wybodaeth.

3.14 Dylid ystyried sylwadau ymgyngoreion statudol yn ystyriaeth berthnasol gan y corff cymeradwyo. Er enghraifft, os bydd rhai (neu bob un) o'r llifau yn debygol o fynd i mewn i rwydwaith ymgymerwr carthffosiaeth, rhaid i'w safbwyntiau gael eu hystyried yn ofalus gan y corff cymeradwyo a rhaid ceisio trefniadau sy'n dderbyniol i bob parti.

3.15 Rydym yn disgwyl i'r corff cymeradwyo feithrin cydberthnasau da ag ymgyngoreion statudol er mwyn sicrhau bod y broses ymgynghori yn gweithio'n effeithiol. Mae'n bosibl y bydd ymgyngoreion am nodi materion y byddai disgwyl i'r corff cymeradwyo ymgynghori â nhw yn eu cylch a phennu meini prawf mewn perthynas ag effaith bosibl, lleoliad, cyrchfan a maint ceisiadau er mwyn blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn achos pryder o ran eu buddiannau. Byddai hyn yn rhoi cyfle iddynt baratoi ymateb safonol ar gyfer llawer o geisiadau ac ymatebion sy'n benodol i'r safle pan fo angen hynny.

3.16 Pan fydd y cais am system ddraenio gynaliadwy yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar fuddiannau'r ymgynghorai statudol disgwyliwn y dylai'r corff cymeradwyo, o leiaf, roi'r wybodaeth ganlynol i ymgynghorai statudol at ddibenion yr ymgynghoriad neu mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad:

- copi o'r ffurflen gais sy'n ymwneud â chais perthnasol,
- y rhif cyfeirnod a roddwyd i'r cais gan y corff cymeradwyo,
- unrhyw gynlluniau neu luniadau mewn cysylltiad â'r cais perthnasol,
- unrhyw gynigion sy'n ymwneud â ble a phryd y gellir edrych ar y cais,
- unrhyw adroddiadau a/neu wybodaeth ategol mewn cysylltiad â'r cais perthnasol a gyhoeddir gan y corff cymeradwyo,
- unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol ym marn y corff cymeradwyo.

3.17 Pan ofynnir am ymateb sy'n benodol i'r safle, dylai ymgyngoreion statudol ei roi o fewn y terfyn amser rhagnodedig o dair wythnos[24] neu ofyn am estyniad y cytunir arno. Caiff y corff cymeradwyo anwybyddu unrhyw sylwadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad y cytunwyd arno.

3.18 Dylai ymgyngoreion statudol roi ymatebion amserol i geisiadau ymgyngoriadau. I lawer o geisiadau, gall hyn fod ar ffurf cadarnhau pa ganiatadau eraill sydd eu hangen o bosibl (e.e. cysylltiad â charthffos

[24] Gweler Rheoliad 4 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.

gyhoeddus o dan a.106A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr, Caniatâd Gweithgarwch Perygl Llifogydd, trwyddedau rhywogaethau a warchodir, ac ati) a darparu cyngor parod neu ddolen i dudalen we sy'n rhoi'r un wybodaeth. Pan fydd y corff cymeradwyo yn gofyn am ymateb sy'n benodol i safle fel rhan o'r cais ymgynghori, disgwylir i ymgyngoreion statudol roi sylwadau a gwybodaeth fanwl mewn perthynas â'r cais ac yng nghyd-destun eu cyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol.

3.19 Pan fydd y corff cymeradwyo yn gwneud penderfyniad sy'n mynd yn groes i gyngor yr ymgyngoreion statudol, dylai eu hysbysu cyn rhoi cymeradwyaeth, er mwyn rhoi digon o amser iddynt wneud ragor o sylwadau.

3.20 Rhoddir statws partïon â buddiant i ymgyngoreion statudol at ddibenion apeliadau hefyd. [25] Bwriedir i hyn ddarparu bod ymgyngoreion statudol yn cael eu hysbysu am yr apêl ac yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau i'w hystyried gan weinidogion pan fyddant yn penderfynu arni.

3.21 Efallai y bydd y corff cymeradwyo am gynnal ymgynghoriad anstatudol ychwanegol, lle y bo'n briodol. Nid oes unrhyw ofyniad rheoliadol i gynnal ymgynghoriad anstatudol, ond er mwyn osgoi oedi dylid cynnal unrhyw ymgynghoriad anstatudol o fewn y terfyn amser a ganiateir ar gyfer ymgynghoriad statudol.

## Gwneud cais i'r corff cymeradwyo am gymeradwyaeth – gofynion, penderfyniad, amodau a'r ffurflen gais

3.22 Gellir cyflwyno cais i gymeradwyo cynllun draenio i'r corff cymeradwyo ar wahân i unrhyw gais cynllunio neu ochr yn ochr â chais cynllunio. Mae cymeradwyaeth gynllunio a chymeradwyaeth y corff cymeradwyo yn systemau annibynnol ar ei gilydd ac efallai y bydd amgylchiadau yn codi lle bydd ceisiadau ar wahân yn briodol, er enghraifft ar gyfer datblygiadau a ganiateir, lle nad oes angen cymeradwyaeth gynllunio ond mae angen cymeradwyaeth y corff cymeradwyo. Mae'r ddeddfwriaeth yn hyblyg ac wedi'i llunio i ganiatáu ceisiadau i'r corff cymeradwyo yn unig a cheisiadau am y naill a'r llall ochr yn ochr â'i gilydd.

### Ceisiadau dilys

3.23 Fel gofyniad sylfaenol, bydd angen i gais dilys ynghylch system ddraenio gynaliadwy i'r corff cymeradwyo gael ei gyflwyno ar y cyd â'r canlynol:

- cynllun sy'n nodi'r ardal adeiladu a graddau'r system ddraenio, a luniadwyd i raddfa a nodwyd ac sy'n dangos cyfeiriad Gogledd.
- gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd y gwaith adeiladu yn cydymffurfio â Safonau SDCau Statudol (gall yr wybodaeth hon fod o gymorth i'r corff

[25] Gweler rheoliad 9(3)(d) o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018 ac erthygl 17(3)(g) o Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018.

cymeradwyo wrth iddo benderfynu ar y cais yn unol â'r darpariaethau mewn deddfwriaeth),[26]

- datganiad ynghylch a yw'r cais yn ymwneud â datblygiad sy'n ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol[27] (os yw'n ddarostyngedig i AEA, y terfyn amser i'r corff cymeradwyo benderfynu ar y cais am gymeradwyaeth fydd 12 wythnos, yn lle saith wythnos fel yn achos ceisiadau eraill),[28]
- ffi briodol y cais.[29]

3.24 Hefyd, mae'r Safonau SDCau Statudol yn cynnwys egwyddor[30] fel y dylai ceisiadau am SDCau gael eu cyflwyno ynghyd â chynigion ar gyfer cynllun cynnal a chadw a modd i gyllido'r cynllun dros oes ei ddyluniad a ddylai gyfateb i oes y datblygiad (gweler Safon C6.17 neu adran 4 o'r canllawiau hyn ynglŷn â chyllido a chynnal a chadw)

3.25 Os caiff cais i'r corff cymeradwyo ei gyfuno â chais cynllunio, cyhyd â bod y cynllun a gyflwynir ar y cyd â'r cais cyntaf yn dangos graddfa'r system ddraenio, ni ddylai fod angen cynllun ar wahân.

3.26 Yn ogystal â'r darpariaethau uchod, gall y corff cymeradwyo bennu unrhyw ofynion penodol eraill ynglŷn â'r ffurf ac unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arno ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth. [31]

### Ffurflen gais SDCau

3.27 Mae pob corff cymeradwyo yn gyfrifol am ofynion ei ffurflen gais ei hun (ond yn ymarferol mae'r rhain yn debyg iawn), sy'n benodol i'r ardal a wasanaethir ganddo.

3.28 Fel mater o ymarfer da, disgwyliwn y bydd cyrff cymeradwyo yn mabwysiadu dull cymesur sy'n seiliedig ar risg o ran yr wybodaeth y maent yn gofyn i geiswyr ei darparu, gan ystyried ffactorau megis maint y datblygiad arfaethedig, hydroddaeareg a thopograffi lleol, risgiau ymhellach i lawr y system, a hwylustod gwneud cais i ddefnyddwyr terfynol y gwasanaeth.

3.29 Rydym yn annog cyrff cymeradwyo i gydweithio (drwy ddulliau fel Cymdeithas SAB Cymru) ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gweithredu'n gyson (lle y bo'n briodol) a sbarduno gwelliannau wrth lunio'r gwasanaeth gwneud cais.

### Penderfynu ar geisiadau

3.30 Os nad yw'r cais i'r corff cymeradwyo yn ddilys am unrhyw reswm, rhaid iddo hysbysu'r ceisydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan esbonio pam

[26] Gweler paragraffau 5(3) ac 11(1) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[27]Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017
[28] Gweler rheoliad 5 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[29] Gweler rheoliadau 3, 4, 5, 6, 7 a 9 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.
[30] Gweler y Safonau SDCau Statudol o dan yr adran ar Egwyddorion.
[31] Gweler paragraffau 9(2)(a) a (b) a 10(2) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

mae'r cais wedi cael ei wrthod a dychwelyd y ffi. [32] Yn ymarferol, anogir y corff cymeradwyo i gysylltu â'r ceisydd yn y lle cyntaf i holi am unrhyw wybodaeth i'w chyflwyno sydd ar goll, a chytuno ar estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer penderfyniad.

3.31 Mae'r corff cymeradwyo yn cael saith wythnos i benderfynu ar geisiadau heblaw'r rhai sy'n gofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Os felly mae'n cael 12 wythnos. [33] Gall pob parti gytuno i estyn y terfyn amser os bydd angen ond bydd methiant i benderfynu ar y cais o fewn y terfynau amser perthnasol yn arwain at y dybiaeth bod y cais wedi cael ei wrthod.

3.32 Mae'n bwysig nodi bod cymeradwyaeth y corff cymeradwyo am gais ar gyfer system ddraenio gynaliadwy ar gyfer cynnig datblygu yn annibynnol ar broses gymeradwyo cynllunio. Mae'r terfynau amser ar gyfer cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo sydd wedi'u rhagnodi mewn rheoliadau wedi'u hanelu at sicrhau nad yw'r broses o gymeradwyo SDCau yn effeithio ar derfynau amser datblygu cyffredinol.

**Cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i amodau**

3.33 Mae'n agored i'r corff cymeradwyo i roi cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i amodau. [34] Mae'r rhestr isod, nad yw'n gynhwysfawr, yn rhoi enghreifftiau o faterion y gellid pennu amodau yn eu cylch:

- adeiladu'r system ddraenio,
- addasiadau i gynllun draenio arfaethedig,
- ffioedd cysylltiedig a/neu ffi a delir mewn perthynas â gwaith a wnaed gan y
- corff cymeradwyo mewn cysylltiad â'r gymeradwyaeth,
- sicrhau cytundebau ar gyfer bondiau methu â chyflawni,
- y cynllun cynnal a chadw a'r modd i gyllido'r cynllun dros oes ei ddyluniad,
- cyfnodau profi ar gyfer y system ddraenio gynaliadwy ar ôl iddi gael ei hadeiladu,
- archwiliadau gan y corff cymeradwyo cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu (yn seiliedig ar y ffi am archwiliad a bennwyd mewn rheoliadau), [35]
- rhaglen waith a chynlluniau adeiladu fesul cam sy'n dangos sut y rheolir dŵr wyneb a dŵr daear yn ystod cylch oes y camau adeiladu.

3.34 Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y dylid gosod amodau:

- maent yn angenrheidiol,

---

[32] Gweler rheoliad 3 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[33] Gweler rheoliad 5 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[34] Gweler paragraff 11(2) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[35] Gweler rheoliad 8 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.

- maent yn berthnasol i broses cymeradwyo a mabwysiadu'r corff cymeradwyo,
- maent yn berthnasol i'r datblygiad sydd i'w gymeradwyo,
- maent yn orfodadwy,
- maent yn fanwl gywir,
- maent yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

3.35 Ni ddylai amodau ddyblygu gofynion deddfwriaeth arall.

3.36 Gellir gorfodi achos o dorri un o amodau'r gymeradwyaeth o dan y gyfundrefn gorfodi draenio cynaliadwy. [36]

### Hysbysiad o benderfyniadau cymeradwyo

3.37 Rhaid i'r corff cymeradwyo hysbysu'r ceisydd, yr ACLl ac ymgyngoreion statudol am y penderfyniad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl penderfynu ar gais am gymeradwyaeth. [37] Os caiff y cais ei wrthod, caiff y ceisydd apelio yn erbyn y penderfyniad (gweler adran 5 o'r canllawiau hyn).

## Nodi pa archwiliadau y bydd eu hangen

3.38 Caiff y corff cymeradwyo nodi yn amodau cymeradwyaeth pa archwiliadau y bydd eu hangen ar gyfer cynlluniau SDCau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadeiladu i'r safon briodol â deunyddiau penodedig neu addas. [38] Gall y corff cymeradwyo adennill costau'r archwiliadau hyn oddi wrth y datblygwr. [39]

3.39 Dylai'r corff cymeradwyo a'r datblygwr gadarnhau a oes angen archwiliadau ynghyd â'u hamseriad a'u hamlder, fel rhan o'r broses gymeradwyo. Bydd hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynglŷn â chostau posibl i'r datblygwr a'r corff cymeradwyo.

3.40 Rhoddir cyngor ynglŷn â chamau allweddol adeiladu nodweddion SDCau yng Nghanllawiau CIRIA ar Adeiladu SDCau. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys rhestrau gwirio y gellir eu defnyddio cyn, yn ystod ac ar ôl adeiladu SDCau i gofnodi paramedrau a sylwadau allweddol.

## Ystyried cytundebau cyrff cymeradwyo

### A oes angen cytundeb o blaid mabwysiadu?

3.41 Ar y cyd â cheisiadau ar gyfer SDCau bydd angen cyflwyno cynigion ar gyfer cynllun cynnal a chadw a modd i gyllido'r cynllun dros oes ei dyluniad. Fel y noda'r adran o'r Safonau SDCau Statudol sy'n ymwneud ag

---

[36] Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018.
[37] Gweler paragraff 11(4) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[38] Gweler paragraff 11(2) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[39] Gweler rheoliad 8 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.

egwyddorion, bydd hyn yn galluogi ceiswyr i ddangos sut y bydd y cynllun system ddraenio gynaliadwy yn **perfformio'n ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithiol dros oes dyluniad y datblygiad, sy'n ystyried yr angen am lefelau rhesymol o gynnal a chadw**.

3.42 Fel rhan o'r gymeradwyaeth am adeiladu system ddraenio gynaliadwy, efallai y bydd y corff cymeradwyo yn ei gwneud yn ofynnol i ymrwymo i gytundeb cyfreithiol, er mwyn sicrhau bod yr holl waith yn gweithredu dros oes dyluniad y system ddraenio gynaliadwy a thros oes y datblygiad yn unol â chymeradwyaeth y corff cymeradwyo, gan gynnwys unrhyw amodau. [40] Gellir ymrwymo i'r cytundeb p'un a yw'r corff cymeradwyo yn bwriadu mabwysiadu'r gwaith ai peidio yn unol â'r meini prawf rheoliadol ar gyfer mabwysiadu.

3.43 Er enghraifft, efallai y bydd angen i'r cytundeb cyfreithiol gwmpasu'r canlynol:

- trosglwyddo tir,
- hawddfreintiau,
- mynediad.

3.44 Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno, dylai'r corff cymeradwyo a'r datblygwr hefyd drafod cytundeb cyfreithiol fel modd ffurfiol i nodi unrhyw drefniadau manwl ynglŷn â'r canlynol: cynnal a chadw'r system ddraenio gynaliadwy dros oes y datblygiad, y modd i gyllido'r cynllun system ddraenio gynaliadwy dros oes ei ddyluniad (gan gynnwys unrhyw swm neu gyllid cynnal a chadw a gymudwyd). Mewn perthynas â sicrhau cytundebau er mwyn sicrhau bod y system ddraenio gynaliadwy yn parhau i gydymffurfio o ran oes dyluniad y datblygiad, efallai y bydd y corff cymeradwyo yn dibynnu ar y pwerau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol.[41]

## Penderfynu a oes angen Bond Methu â Chyflawni

3.45 Efallai y bydd y corff cymeradwyo yn gofyn am ernes bond methu â chyflawni (y bond) fel amod cymeradwyo, fel y bydd cymeradwyaeth y corff cymeradwyo ond yn dod yn weithredol os a phryd y bydd y datblygwr yn darparu'r bond.[42] Bydd y math o fond a'i werth yn cael eu pennu gan y corff cymeradwyo yn yr amod.[43]

3.46 Caiff gwerth y bond ei bennu gan y corff cymeradwyo ar unrhyw lefel hyd at ond heb fod yn uwch na'r amcangyfrif gorau o gost gyffredinol y gwaith sydd ei angen i sicrhau bod y system ddraenio yn unol â'r cynigion

[40] Gweler paragraff 1111(2) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[41]Gweler er enghraifft; adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ac adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
[42] Gweler paragraff 11 (2)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[43] Gweler paragraff 12(1) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

cymeradwy. Yr amcangyfrif gorau o’r gost gyffredinol yw’r gwerth mwyaf a ganiateir ar gyfer y bond.[44]

3.47 Mae trafodaethau cyn gwneud cais rhwng y corff cymeradwyo a’r datblygwr yn rhan hollbwysig o’r broses. Bydd y rhain yn rhoi cyfle cynnar i ystyried amodau cymeradwyo’r corff cymeradwyo a datrys unrhyw anghytundebau posibl. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid ystyried apelio yn erbyn penderfyniadau gan y corff cymeradwyo ynglŷn ag amod[45] .

3.48 Bydd y bond yn daladwy i’r corff cymeradwyo os yw’n ardystio[46] bod y system ddraenio:

- wedi cael ei hadeiladu mewn modd nad yw’n unol â’r cynigion cymeradwy; neu
- yn annhebygol o gael ei chwblhau.

## Diben y bond

3.49 Bwriedir i’r bond ategu a hwyluso’r gwaith o ddarparu draenio cynaliadwy ar ddatblygiad newydd. Mae’n cynnig mesur diogelu hollbwysig er mwyn sicrhau bod modd i’r corff cymeradwyo adweirio system ddraenio gynaliadwy sydd wedi’i hadeiladu’n wael neu sy’n anghyflawn. Dylai’r bond hefyd roi cymhelliant i geiswyr gwblhau gwaith mewn modd boddhaol er mwyn osgoi sefyllfa lle mae’r corff cymeradwyo yn hawlio’r bond.

3.50 Caiff y corff cymeradwyo benderfynu a oes angen bond. Gall bond yn benodol sicrhau:

- bod cymunedau, busnesau a deiliaid lleol yn cael eu hamddiffyn rhag perygl llifogydd o ganlyniad i ddatblygiad newydd,
- y bydd yr amgylchedd ymhellach i lawr y system yn cael ei ddiogelu rhag canlyniadau methiant i gwblhau systemau draenio cynaliadwy i’r safonau priodol,
- nad pwrs y wlad fydd yn gyfrifol am gostau unioni unrhyw ddiffygion adeiladu,
- nad oes rhwymedigaeth ar y corff cymeradwyo i fabwysiadu system ddraenio gynaliadwy sydd wedi’i hadeiladu’n wael neu sy’n anghyflawn
- heb y gallu ariannol i’w hatgyweirio neu ei chwblhau,
- bod gan y corff cymeradwyo a’r datblygwr ddealltwriaeth gyffredin ynglŷn â lefel y warant ariannol neu gysylltiedig sydd ei hangen i sicrhau systemau draenio cynaliadwy.

[44] Gweler paragraff 12(5) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[45] Gweler paragraff 25 (1) (a) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[46] Gweler paragraff 1212(2) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

**Cyfrifo gwerth y bond**

3.51 Ni chaniateir i werth y bond fod yn fwy nag amcangyfrif gorau'r corff cymeradwyo o uchafswm costau tebygol y gwaith sydd ei hangen i sicrhau bod y system ddraenio yn unol â'r cynigion cymeradwy.

3.52 Ni chaniateir i werth y bond gael ei bennu'n uwch na'r hyn sydd ei angen i gyflawni ei ddiben. Nod y bond yw hwyluso datblygiad; rhaid i'r corff cymeradwyo sicrhau bod gwerth y bond yn rhesymol ac yn gyfiawnadwy i'r datblygwr.

3.53 Disgwylir i amcangyfrifon o gostau fod yn destun trafodaethau manwl rhwng y corff cymeradwyo a'r datblygwr cyn bod gwerth y bond neu'r ffordd y caiff ei ryddhau eu pennu fel amod cymeradwyo'r corff cymeradwyo.

3.54 Dylai costau adeiladu system ddraenio gynaliadwy fod yn seiliedig ar yr wybodaeth fwyaf diweddar sydd ar gael. Lle y bo modd, er mwyn sicrhau cysondeb i ddatblygwyr, dylai'r corff cymeradwyo gyfrifo'r bond drwy ddefnyddio canllawiau ar safon y diwydiant, lle mae'r rhain ar gael. Os na fydd hyn yn bosibl, bydd angen i'r corff cymeradwyo lunio'r amcangyfrif gorau o oblygiadau cost ar gyfer bond methu â chyflawni. Disgwylir i gyrff cymeradwyo dros amser sicrhau bod corff o ddata dibynadwy ar gostau elfennau o SDCau ar gael.

3.55 Dylai'r dystiolaeth sydd ei hangen i gyfrifo gwerth y bond fel arfer gael ei darparu gan y datblygwr fel rhan o gais ar gyfer system ddraenio gynaliadwy. Gall y corff cymeradwyo ofyn am hyn neu unrhyw wybodaeth berthnasol arall ar y cyd â'r cais. [47]

3.56 Y man cychwyn ar gyfer cyfrifo gwerth y bond yw cost debygol y gwaith sydd ei angen i adeiladu'r cynigion ar gyfer SDCau fel y'u cymeradwywyd. Felly, dylai cais ar gyfer system ddraenio gynaliadwy gynnwys:

- digon o fanylion am ddyluniad a dimensiynau y system ddraenio i ganiatáu i'r corff cymeradwyo feintioli pob un o'r elfennau i'w hadeiladu,
- y gost unedol am bob elfen o'r system ddraenio gynaliadwy.

3.57 Drwy'r wybodaeth hon dylai fod modd i'r corff cymeradwyo SDCau gyfrifo cost adeiladu pob un o elfennau'r system ddraenio gynaliadwy.

3.58 Er mwyn amcangyfrif cyfanswm y gost adeiladu, efallai y bydd angen i'r corff cymeradwyo hefyd ystyried ffactorau lleol sy'n debygol o effeithio ar gost adeiladu pob un o elfennau'r system ddraenio gynaliadwy. Gall hyn, er enghraifft, gynnwys:

- nodweddion arbennig safle'r cais,
- natur y datblygiad a gynigir ar y safle,
- costau lleol llafur a deunyddiau,

[47] Gweler paragraff 9 (2)(b) a 10(2) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

- risgiau methiant yn adeiladwaith system ddraenio gynaliadwy,
- diogelwch y safle a darpariaethau lles.

3.59 Bydd angen i'r corff cymeradwyo sicrhau bod elfennau na ddylid eu cynnwys yn y gost adeiladu at ddibenion y bond yn cael eu nodi a'u hepgor wrth gyfrifo'r bond. Gall hyn, er enghraifft, gynnwys:

- ymchwiliad i'r safle, costau dylunio a chostau tir,
- unrhyw elfennau o'r system ddraenio gynaliadwy sy'n annhebygol o fod yn destun gwaith atweirio gan y corff cymeradwyo o dan y bond,
- unrhyw elfennau o'r system ddraenio gynaliadwy sy'n draenio'r briffordd yn unig, a ddylai gael eu cwmpasu gan fond y briffordd yn hytrach na bond y system ddraenio gynaliadwy,
- unrhyw eitemau neu nodweddion y gellir eu symud nad oes eu hangen am weithrediad y system ddraenio gynaliadwy.

3.60 Y corff cymeradwyo sy'n gyfrifol yn y pen draw am bennu gwerth y bond. Cyfrifoldeb y corff cymeradwyo yw sicrhau bod yr holl wybodaeth a chyfrifiadau a ddarperir gan y ceisydd yn cael eu gwirio a bod cyfrifiadau o gostau ynghyd ag unrhyw ffactorau lleol a ystyrir yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, fel bod y bond yn rhesymol ac yn gyfiawnadwy i'r datblygwr.

**Hawlio'r bond**

3.61 Os na fydd y system a adeiladwyd yn cydymffurfio â'r dyluniad cymeradwy neu os na fydd y gwaith adeiladu yn cael ei gwblhau, bydd y corff cymeradwyo yn gofyn i'r datblygwr wneud y gwaith angenrheidiol i sicrhau cydymffurfedd. Os na fydd y datblygwr, am unrhyw reswm, yn gwneud y gwaith angenrheidiol, efallai y bydd angen i'r corff cymeradwyo ddefnyddio rhywfaint o'r bond, neu'r bond cyfan, i wneud y gwaith ei hun.

3.62 Cyn gwneud hynny, rhaid i'r corff cymeradwyo ymgynghori[48] â'r datblygwr. Yna, caiff roi tystysgrif i'r datblygwr bod methiant i adeiladu neu gwblhau'r gwaith fel y'i cymeradwywyd neu ei fod yn annhebygol o gael ei gwblhau. Unwaith y bydd y corff cymeradwyo wedi ymgynghori â'r datblygwr ac wedi'i hysbysu am y dystysgrif, yna caiff fwrw ymlaen ag unrhyw waith sydd ei angen i sicrhau cydymffurfedd. Caiff y symiau a dderbyniwyd o dan y bond eu defnyddio gan y corff cymeradwyo i dalu am gostau'r gwaith. Bydd unrhyw symiau sy'n weddill o dan y bond yn cael eu dychwelyd i'r datblygwr. [49]

[48] Gweler paragraff 12(3) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[49] Gweler paragraff 12(4) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

**Dychwelyd y bond**

3.63 Os na fydd bond wedi cael ei hawlio a bod y corff cymeradwyo wedi'i fodloni bod y system ddraenio wedi cael ei hadeiladu yn unol â'r cynigion cymeradwy, gan gynnwys amodau'r gymeradwyaeth a all bennu cyfnod diffygion a/neu gyfnod ymsefydlu, rhaid i'r corff cymeradwyo ryddhau'r bond. [50]

3.64 Yn achos datblygiad lle mae'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys, neu lle mae'r corff cymeradwyo yn mabwysiadu'r system ddraenio gynaliadwy yn wirfoddol, y cyfnod o amser i wneud hyn yw o fewn pedair wythnos yn dechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl i'r corff cymeradwyo wedi rhoi hysbysiad o'i fwriad neu ei benderfyniad mewn ymateb i gais i fabwysiadu. [51]

3.65 Yn achos datblygiad lle nad yw'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys ac nad yw'r corff cymeradwyo yn mabwysiadu'r system ddraenio gynaliadwy yn wirfoddol, y cyfnod o amser i ryddhau'r bond yw o fewn pedair wythnos yn dechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl cwblhau system ddraenio sydd wedi cael ei hadeiladu yn unol â'r cynigion cymeradwy.

3.66 Er nad oes unrhyw ofyniad deddfwriaethol ar gyrff cymeradwyo i wneud hynny, maent yn cael eu hannog i roi tystysgrif gwblhau i gadarnhau i ddatblygwyr bod y gwaith wedi cael ei gwblhau'n foddhaol ac yn unol â'r gymeradwyaeth a'r Safonau Cenedlaethol. Os bydd corff cymeradwyo yn rhoi tystysgrif o'r fath, gall ei rhoi ym mha fformat bynnag y tybia ei fod yn briodol.

3.67 Os bydd y corff cymeradwyo yn defnyddio'r bond ar ôl rhoi tystysgrif, ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, bydd, o fewn pedair wythnos, yn: [52]

- anfon cyfrif llawn at y datblygwr o unrhyw symiau a gafwyd o dan y bond sydd wedi eu defnyddio i ddiwallu cost gwneud y gwaith
- talu unrhyw swm dros ben i'r datblygwr,
- rhyddhau'r bond.

## Codi ffioedd am gymeradwyo ac archwilio

3.68 Mae rheoliadau[53] yn galluogi'r corff cymeradwyo i godi ffi ar sail ar adennill costau ar gyfer pob cais am gymeradwyaeth. Rhaid i'r ffi gael ei chyflwyno ar yr un pryd â'r cais am gymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo. [54]

## Strwythur ffioedd ar gyfer cyfrifo ffioedd ceisiadau

3.69 Mae strwythur ffioedd cenedlaethol ar gyfer cymeradwyo ceisiadau wedi cael ei nodi mewn rheoliadau, sy'n darparu ar gyfer codi ffioedd ar sail swm penodedig ar gyfer pob cais, ynghyd â swm ychwanegol a bennir yn ôl

[50] Gweler paragraff 23 (6) (g) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[51] Gweler Rheoliad 7 (1) o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[52] Gweler Rheoliadau 7 (2) a (3) o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[53] Gweler Rheoliadau 3, 4, 5, 6, 7 a 9 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.
[54] Gweler paragraff 9 (2) (c) a 10 (2) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

maint yr ardal adeiladu. Am y manylion diweddaraf am y strwythur ffioedd a sut y dylid ei ddeall, ewch i dudalen Llywodraeth Cymru ar y we: Ffioedd Ceisiadau Draenio Cynaliadwy.

# Adran 4: Mabwysiadu SDCau

## Dyletswydd i fabwysiadu

4.1 O dan Atodlen 3 i Ddeddf 2010, yn ddarostyngedig i amodau, rhaid i'r corff cymeradwyo fabwysiadu SDCau sy'n gwasanaethu dau eiddo neu fwy. [55] Nid yw'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys os bydd y system yn gwasanaethau safle sy'n cael ei reoli gan berson unigol neu ddau berson neu ragor gyda'i gilydd, fel y'u diffiniwyd mewn rheoliadau. [56]

4.2 Wrth fabwysiadu'r system ddraenio gynaliadwy, dylai'r corff cymeradwyo ddod yn gyfrifol am y system gyfan (a all gynnwys nodweddion megis pibellau a storfeydd tanddaearol yn ogystal â nodweddion gwyrdd megis pantiau) o'r man lle mae'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys nes bod llifau yn gadael y system naill ai i'w hailddefnyddio, i fynd i mewn i'r ddaear, i fynd i mewn i system ddraenio priffordd sy'n cael ei chynnal a'i chadw gan yr awdurdod priffyrdd lleol, i ddraenio i gorff dŵr wyneb, neu i rwydwaith yr ymgymerwr carthffosiaeth.

### Amodau mabwysiadu y mae'n rhaid eu bodloni

4.3 Mae'n ofynnol i'r corff cymeradwyo fabwysiadu systemau draenio sy'n bodloni amodau penodol. [57] Nid yw'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys i SDCau sy'n gwasanaethu eiddo unigol neu ffyrdd a gynhelir yn gyhoeddus.

4.4 Yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni yw:

- bod y system ddraenio wedi ei hadeiladu a'i bod yn gweithredu yn unol â'r cynigion cymeradwy, gan gynnwys unrhyw amodau cymeradwyo,
- bod y system ddraenio "yn system ddraenio gynaliadwy", sy'n golygu bod y rhannau hynny o system ddraenio nad ydynt wedi'u breinio mewn ymgymerwr carthffosiaeth o dan gytundeb adran 104 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

4.5 Unwaith y bydd telerau'r gymeradwyaeth wedi'u bodloni, gan gynnwys unrhyw gyfnod sydd ei angen i lystyfiant ymwreiddio, gall y corff cymeradwyo benderfynu mabwysiadu'r system ddraenio ei hun neu ymateb i gais gan y datblygwr (gan ddefnyddio unrhyw ffurflen a ddarperir gan y corff cymeradwyo i wneud hynny). [58] Rhaid i unrhyw geisiadau i fabwysiadu gael eu penderfynu gan y corff cymeradwyo o fewn wyth wythnos. Tybir y bydd methiant i wneud hynny yn benderfyniad i wrthod mabwysiadu oni bai bod y corff cymeradwyo a'r datblygwr wedi cytuno ymlaen llaw i estyn y cyfnod o amser. [59]

---

[55] Gweler paragraff 17 a 18 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[56] Gweler rheoliad 9 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[57] Gweler paragraff 17 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[58] Gweler paragraff 23 (2) a (3) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[59] Gweler Rheoliad 7 o Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.

**Hysbysiad o benderfyniad i fabwysiadu**

4.6 Pan fydd y corff cymeradwyo yn mabwysiadu ar ei fenter ei hun neu mewn ymateb i gais, rhaid iddo hysbysu'r datblygwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud penderfyniad ynghylch mabwysiadu. [60] Rhaid i'r hysbysiad bennu'r rhesymau dros y penderfyniad a dyddiad y penderfyniad. [61]

4.7 Pan fydd y corff cymeradwyo yn gwrthod mabwysiadu, caiff y ceisydd apelio yn erbyn y penderfyniad.[62]

4.8 Rhaid i'r corff cymeradwyo roi copi o'r hysbysiad i: [63]

- yr ymgymerwr carthffosiaeth,
- unrhyw berson yr ymddengys ei fod yn berchen ar dir neu'n meddiannu tir y mae'r system ddraenio arno (gan gynnwys unrhyw drefniadau o dan y cynigion cymeradwy ar gyfer mynediad a chynnal a chadw,
- unrhyw berson arall yr oedd rhwymedigaeth ar y corff cymeradwyo i ymgynghori ag ef pan gyflwynwyd cais am gymeradwyaeth,
- unrhyw berson yr ymddengys ei fod yn berchen ar dir neu'n meddiannu tir y bydd dŵr yn cael ei draenio ohono gan y system.

## Eithriadau i'r ddyletswydd i fabwysiadu

4.9 Mae systemau draenio eiddo unigol ac unrhyw ran o system ddraenio sy'n ffordd a gynhelir yn gyhoedus yn esempt rhag dyletswydd i fabwysiadu corff cymeradwyo.[64]

4.10 Mae awdurdodau priffyrdd[65] eisoes yn gyfrifol am ddraenio a chynnal a chadw ffyrdd a gynhelir yn gyhoeddus. Byddai'r corff cymeradwyo yn esempt rhag mabwysiadu unrhyw ran o system ddraenio gynaliadwy y byddai'r awdurdod priffyrdd eisoes yn gyfrifol am ei chynnal a'i chadw, er enghraifft pantiau wrth ymyl ffyrdd ac arwynebau hydraidd. Rhai i'r awdurdod priffyrdd weithredu yn unol â'r dyluniad draenio cymeradwy, gan gynnwys y gyfundrefn cynnal a chadw, i gydymffurfio â'r Safonau SDCau Statudol.

4.11 Mae'r ddyletswydd i fabwysiadu ar y corff cymeradwyo yn cynnwys unrhyw SDCau mewn neu wrth ymyl ffyrdd preifat, os bydd y ffordd breifat ac, felly, drwy estyniad, y system ddraenio gynaliadwy yn gwasanaethu dau eiddo neu ragor. Mae enghreifftiau yn cynnwys cyrtiau parcio neu ffyrdd mynediad i ddau eiddo neu ragor nad ydynt yn cael eu cynnig i'r awdurdod priffyrdd eu mabwysiadu. Os daw'r ffordd yn un a gynhelir yn gyhoeddus, yn

[60] Gweler paragraff 23 (4)(b) a (5) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[61] Gweler Rheoliad 6 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[62] Gweler paragraff 25 (1)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010
[63] Gweler paragraff 23(6) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[64] Gweler paragraffau 18 a 19 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010 a Rheoliad 9 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018 am ddiffiniad o eiddo unigol.
[65] Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn awdurdod priffordd ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd lleol yn ei ardal.

ddiweddarach, yna daw'r awdurdod priffyrdd yn gyfrifol am ei chynnal a'i chadw, yn ddarostyngedig i'r prosesau mabwysiadu priodol bryd hynny.

4.12 Nid oes dyletswydd ar y corff cymeradwyo i gymeradwyo na mabwysiadu system ddraenio gynaliadwy sy'n cael ei hadeiladu gan ymgymerwr carthffosiaeth o dan adran 114A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae'r ddyletswydd hon yn ymwneud yn benodol â systemau sydd wedi'u dylunio i leihau'r llwyth dŵr wyneb ar systemau carthffosiaeth presennol y bydd yr ymgymerwr yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt.

4.13 Rhaid i ymgymerwr carthffosiaeth dderbyn unrhyw ddŵr wyneb o ffordd a gynhelir yn gyhoeddus, pan fo'r system ddraenio a adeiladwyd yn unol â chymeradwyaeth y corff cymeradwyo. [66]

## Mabwysiadu gwirfoddol

4.14 Caiff y corff cymeradwyo fabwysiadu system ddraenio gynaliadwy yn wirfoddol pan na fydd o dan ddyletswydd statudol i wneud hynny. [67] Er enghraifft, gall hyn gynnwys SDCau presennol nad ydynt wedi cael eu hadeiladu i'r Safonau SDCau Statudol o bosibl, cynlluniau sy'n gwasanaethu datblygiadau sydd wedi'u hesemptio rhag cael eu mabwysiadu o dan y trefniadau trosiannol neu system ddraenio gynaliadwy sy'n gwasanaethu eiddo unigol. Rhaid i'r corff cymeradwyo hysbysu unrhyw ymgymerwr carthffosiaeth neu berson y mae ei benderfyniad i fabwysiadu yn effeithio arno. [68] Rhaid i'r hysbysiad sy'n pennu'r rheswm dros fabwysiadu a'r dyddiad mabwysiadu gael ei roi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud penderfyniad ynghylch mabwysiadu. [69]

## Cynnal a chadw a'r modd i gyllido'r cynllun dros oes ei ddyluniad

### Cynlluniau cynnal a chadw

4.15 Disgwylir i'r datblygwr ddatblygu a llunio cynllun cynnal a chadw mewn partneriaeth â'r corff cymeradwyo ynghyd â'r modd i gyllido'r cynllun dros oes ei ddyluniad, fel y'i nodir yn yr adran gynharach ar geisiadau dilys. Nodir yr egwyddor mewn perthynas â hyn yn y Safonau SDCau Statudol. Hefyd, mae gan y corff cymeradwyo rywfaint o ddisgresiwn i osod amodau cymeradwyo, a all gael eu defnyddio i sicrhau bod y caiff y systemau draenio cynaliadwy eu cynnal a'u cadw dros oes y datblygiad. Fel gofyniad sylfaenol, mae angen i'r cynllun cynnal a chadw gynnwys y canlynol:

a) Y math o weithgareddau cynnal a chadw sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y system ddraenio yn gweithredu yn unol â'r dyluniad i reoli perygl llifogydd a sicrhau manteision lluosog;

[66] Gweler paragraff 16(3) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010, sy'n diwygio adran 115 o Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.
[67] Gweler paragraff 21 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[68] Gweler paragraff 24 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.
[69] Gweler Rheoliad 11 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.

b) Pa mor am y rhagwelir y bydd angen ymgymryd â'r gweithgareddau hynny;

c) Parhad amcangyfrifedig y gweithgareddau hynny;

d) Unrhyw beiriannau a chyfarpar penodol sy'n ofynnol i ymgymryd â'r gweithgareddau hynny;

e) Y costau amcangyfrifedig i gwblhau'r gweithgareddau hynny;

f) Cynllun safle sy'n dangos ardaloedd cynnal a chadw, ffyrdd mynediad a'r lleoliadau lle y rhagwelir y bydd angen ymgymryd â gweithgareddau cynnal a chadw;

g) Datganiad yn disgrifio unrhyw swyddogaeth eilaidd (e.e. ardal hamdden) uwchlaw neu o fewn yr elfen system ddraenio gynaliadwy a manylion yn disgrifio sut y bwriedir i'r swyddogaeth gael ei rheoli a gan bwy. Dylid rhoi ystyriaeth i nodweddion a all fynd o dan ddŵr o bryd i'w gilydd (e.e. ardal hamdden a ddefnyddir ar gyfer storio dŵr llifogydd dros dro ar gyfer digwyddiadau storm anfynych) a sut y gellir adfer yr ardal hon i ddefnydd buddiannol mor gyflym â phosibl ar ôl digwyddiad storm. Gall hyn gynnwys gweithgareddau adferol, megis glanhau ysbwriel o'r ardal.

h) Oes ddisgwyliedig nodweddion y system ddraenio gynaliadwy a manylion ynglŷn â sut a phryd y bwriedir i'r nodweddion hyn gael eu hadnewyddu ar ddiwedd ar eu hoes pe bai hyn cyn diwedd oes y datblygiad. Dylai adnewyddu nodweddion SDCau ar ddiwedd oes ystyried pob un o bwyntiau (c), (d), (e), (f) a (g) uchod.

i) Unrhyw gostau rhedeg, er enghraifft costau ynni am bympiau neu gyfarpar monitro o bell.

**Cynnal a chadw a chyllido corff cymeradwyo SDCau**

4.16 Bydd angen i ddatblygwyr weithio'n agos gyda'r corff cymeradwyo a chymunedau i ddatblygu opsiynau cynnal a chadw a chynllun cynnal a chadw, ynghyd â chyllid sy'n darparu ar gyfer cynnal a chadw'r system ddraenio gynaliadwy yn unol â'r Safonau SDCau Statudol dros oes y datblygiad.

4.17 Er mwyn bod yn effeithiol, awgrymwn y dylai'r cynllun cynnal a chadw nodi'n glir pwy fydd yn gyfrifol am ymgymryd â gwaith cynnal a chadw a sicrhau bod cyllid yn deg i ddeiliaid preswyl a deiliaid mangreoedd.

4.18 Pan fydd dyletswydd ar y corff cymeradwyo i'w mabwysiadu, mae'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y system ddraenio a fabwysiadwyd yn cael ei chynnal a'i chadw yn unol â'r Safonau SDCau Statudol. [70] Mewn perthynas â sicrhau cytundebau i gefnogi trefniadau cynnal a chadw, gan gynnwys unrhyw swm a gymudwyd neu gyllid cynnal a chadw, efallai y bydd y corff

[70] Gweler paragraff 22 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

cymeradwyo yn dymuno dibynnu ar y pwerau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol.

**Symiau a gymudwyd**

4.19 Mae sicrhau dull cyllido cynaliadwy ar gyfer datblygiad newydd yn un o amcanion allweddol y corff cymeradwyo; mae'n gyfrifol am reoli a chynnal a chadw asedau SDCau. Nod symiau a gymudwyd yw sicrhau bod y corff cymeradwyo yn cael yr adnoddau ar gyfer cynnal a chadw a (lle y bo'n berthnasol) adnewyddu'r asedau a fabwysiadwyd. Bydd effeithiolrwydd y SDCau a'r manteision lluosog cysylltiedig yn dibynnu ar drefniadau cynnal a chadw priodol.

4.20 Wrth gyfrifo swm a gymudwyd ystyrir:

- Cost cynnal a chadw cyfnodol amcangyfrifedig yr ased i'r corff a'i mabwysiadwyd. Mae'r Llawlyfr ar SDCau yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am yr elfen hon.
- Cost ei adnewyddu yn y dyfodol (lle y bo'n briodol)
- Dros ba gyfnod y bydd angen y swm.
- Y gyfradd llog flynyddol weithredol a fydd yn rhoi enillion o'r swm a fuddsoddir cyn ei wario ar ôl ystyried effeithiau chwyddiant (a elwir yn gyfradd ddisgowntio).

4.21 Argymhellir y dylid mabwysiadu dull gweithredu pragmatig o bennu cyfnod y symiau a gymudwyd, ac y dylai'r rhain gael eu cydbwyso rhwng adlewyrchu costau i'r corff cymeradwyo yn gywir, a hefyd gyfrif am hyfywedd ariannol y datblygiad arfaethedig, a hynny gan dybio y tybir bod dyluniad y system ddraenio gynaliadwy yn rhesymol i'r corff cymeradwyo a'r datblygwr o ran trefn a chost.

4.22 Fel mater o arfer gorau, mae pob corff cymeradwyo yn cael ei annog yn gryf i ddefnyddio cyfrifiannell symiau a gymudwyd, er mwyn cynnig dull clir ac ymarferol o ddeillio costau symiau a gymudwyd realistig i ddatblygwyr. Bydd angen i'r cyfrifiannell symiau a gymudwyd:

- gydnabod costau gwirioneddol y corff cymeradwyo priodol;
- gael ei newid o bryd i'w gilydd i gyfrif am chwyddiant a ffactorau pris eraill, megis prisiau yn cynyddu neu'n gostwng yn unol â grymoedd y farchnad, ac ati;
- bod ar gael ar ddechrau unrhyw broses o ddyluno datblygiad, fel y bydd y cleient yn gwbl ymwybodol o'r costau cynnal a chadw ac y caiff ei dywys gan y rhain wrth baratoi'r dyluniad gorau a mwyaf hyfyw.

4.23 Cydnabyddir y gall costau gwahanol gyrff cymeradwyo unigol amrywio'n sylweddol oherwydd argaeledd gwasanaethau a deunyddiau, daearyddiaeth, y dull o gyflwyno gwasanaeth a ffactorau eraill.

**Llywodraeth Leol**

4.24 Efallai y bydd awdurdodau lleol am allanoli'r gwaith o gynnal a chadw systemau draenio cynaliadwy. Gallai awdurdodau lleol gydweithio i ddarparu'r gwasanaeth hwn neu gallent ymrwymo i drefniant contractiol â chwmnïau rheoli preifat neu ddarparwyr gwasanaethau eraill.

**Cwmni Rheoli**

4.25 Mae cwmnïau rheoli yn aml yn cael eu sefydlu i gynnal a chadw mannau cyhoeddus ac asedau eraill ar ddatblygiadau newydd. Efallai y bydd y corff cymeradwyo yn dewis penodi cwmni rheoli i gynnal a chadw'r system ddraenio dros oes y datblygiad arfaethedig.

4.26 Dylai'r corff cymeradwyo sicrhau bod unrhyw gwmni rheoli a benodir yn gymwys i gynnal a chadw SDCau. Dylai fod yn ofynnol i'r cwmni rheoli wneud y canlynol:

- creu a chynnal cyfrifiannell symiau a gymudwyd i adlewyrchu costau cynnal a chadw yn gywir
- sicrhau bod y cyfrifiannell symiau a gymudwyd ar gael i'r corff cymeradwyo a'r partïon hynny sy'n gyfrifol am dalu costau cynnal a chadw i'r cwmni rheoli

4.27 Gallai ymddiriedolaethau elusennol, gan gynnwys mentrau cymunedol nid-er-elw, hefyd wasanaethu fel cwmnïau rheoli a disgwylir iddynt ddilyn yr un gofynion â chwmni rheoli.

4.28 Dylid cynnwys darpariaeth i'r corff cymeradwyo ymyrryd os bydd y cwmni rheoli yn methu yn y cytundebau rheoli.

4.29 Ym mhob achos pan fydd y corff cymeradwyo yn mabwysiadu system ddraenio, erys yn gyfrifol am sicrhau bod y system yn cael ei chynnal a'i chadw mewn cydymffurfedd â'r Safonau Statudol.

**Unigolion preifat – perchenogion neu ddeiliaid eiddo**

4.30 Dylai perchnogion a deiliaid eiddo a wasanaethir gan SDCau nad ydynt hefyd yn draenio eiddo arall gynnal a chadw eu system ddraenio eu hunain er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu yn unol â'i dyluniad.

4.31 Pan fydd y systemau hyn yn syml, heb fawr ddim cynhyrchion perchenogol os o gwbl, yn hawdd i'w cynnal a'u cadw ac ond yn gwasanaethu niferoedd bach o eiddo, efallai y bydd perchenogion neu ddeiliaid eiddo o'r fath yn dymuno cynnal a chadw'r system ddraenio gynaliadwy ar y cyd.

4.32 Dylai'r datblygwr roi cyfarwyddiadau llawn ar gynnal a chadw'r system ddraenio gynaliadwy i berchenogion a deiliaid, gan gynnwys gofynion atgyweirio ac adnewyddu.

4.33 Cynghorir y corff cymeradwyo i gynnwys archwiliadau gorfodol o nodweddion SDCau sy'n cael eu mabwysiadu a'u cynnal a'u cadw gan gyrff eraill, er mwyn sicrhau bod y nodweddion yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Dylai hyn ddigwydd yn ystod y cam adeiladu ac o bryd i'w gilydd dros oes y datblygiad. Gellir gorfodi hyn fel amod fel rhan o gymeradwyaeth y corff cymeradwyo, gan gynnwys costau rhesymol sy'n gysylltiedig ag archwiliadau.

4.34 Ar gyfer rhai cymunedau sydd â gofynion cynnal a chadw cymharol syml, efallai y bydd y corff cymeradwyo yn dymuno ymgysylltu â'r cymunedau mewn perthynas â threfniadau cynnal a chadw a arweinir gan y gymuned. Fodd bynnag, pan fydd system ddraenio gynaliadwy yn gwasanaethu dau eiddo neu ragor, y corff cymeradwyo fydd yn gyfrifol yn y pen draw o hyd am sicrhau trefniadau cynnal a chadw.

## Dynodi - cofrestr asedau, monitro ac adrodd

4.35 O fewn 4 wythnos i roi hysbysiad o'i benderfyniad i fabwysiadu[71] rhaid i'r corff cymeradwyo drefnu:

- I'r awdurdod llifogydd lleol arweiniol gynnwys y system ddraenio (p'un a yw wedi cael ei mabwysiadu ai peidio) yn y gofrestr o strwythurau nodweddion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y perygl llifogydd mewn ardal (mae adran 21 o Ddeddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod llifogydd lleol arweiniol sefydlu a chynnal cofrestr a gwybodaeth ynglŷn â strwythurau neu nodweddion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar berygl llifogydd yn ei ardal).
- I ddynodi dros dro y rhannau hynny o'r systemau draenio nad ydynt yn eiddo i'r corff cymeradwyo, ac sy'n gymwys i'w dynodi â'r awdurdod dynodi (mae Atodlen 1 i Ddeddf 2010 yn diffinio awdurdod dynodi a'r weithdrefn ar gyfer hysbysiad dynodi dros dro).
- I ddynodi o dan adran 63 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (strydoedd ag anawsterau peirianyddol arbennig) unrhyw ran a fabwysiadwyd o'r system ddraenio sy'n stryd, o fewn ystyr adran 48 o'r Ddeddf honno.

4.36 Rhaid i'r corff cymeradwyo drefnu i gynnwys o fewn pedair wythnos yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl rhoi hysbysiad o'i benderfyniad ynghylch mabwysiadu a wneir o dan adran 23(2) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

4.37 Gallai'r gofrestr hon gael ei defnyddio gan awdurdodau lleol i ddeall yn well effaith gronnol SDCau ac, o bosibl, sut y gallai datblygwyr estyn cynlluniau SDCau presennol i ymgorffori datblygiad ychwanegol yn hytrach na chreu systemau newydd. Fel y cyfryw, argymhellir y dylai cofrestrau adran 21 gynnwys yr wybodaeth ganlynol am systemau draenio cynaliadwy:

- Dalgylch wyneb

[71] Gweler rheoliad 8 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.

- Elfennau o’r system ddraenio gynaliadwy
- Ardal y system ddraenio gynaliadwy
- Cyfradd dŵr ffo’r dyluniad
- Cyfaint dŵr ffo’r dyluniad
- Beth a ble yw diwedd llinyn rheoli’r system ddraenio gynaliadwy e.e. cwrs dŵr, perchennog carthffos gyfun.

4.38 Ar gyfer SDCau sy’n cael eu cynnal a’u cadw’n breifat, dylai cofnod o waith cynnal a chadw ac unrhyw waith monitro i’w gyflawni gael eu nodi rhwng y corff cymeradwyo a’r datblygwr i’w cynnwys mewn cynllun cynnal a chadw. Bydd hyn yn sicrhau y gall y system ddraenio gynaliadwy gael ei chynnal a’i chadw’n ddigonol i gydymffurfio â’r Safonau SDCau a dylai helpu i leihau’r angen am archwiliadau parhaus gan y corff cymeradwyo. Gellid cofnodi data monitro a, lle y bo modd, gellid gwneud hyn yn awtomatig drwy’r defnydd o dechnoleg glyfar. Efallai y bydd modd i grwpiau bywyd gwyllt neu gymunedol lleol gasglu data.

4.39 Yna, gellid defnyddio’r wybodaeth hon i baratoi datganiad rheolaidd am gydymffurfedd. Os bydd y rhain yn tynnu sylw at unrhyw afreoleidd-dra, gellir trefnu archwiliad. Gallai cyrff cymeradwyo drefnu archwiliad ar unrhyw adeg os bydd cwynion neu os tybir fel arall fod hynny’n briodol.

4.40 Dogfennau cyhoeddus yw’r cofrestru a rhaid iddynt fod ar gael i’w harchwilio ar adegau rhesymol.

4.41 O ran systemau draenio sy’n aros o dan berchnogaeth breifat, er enghraifft ar eiddo unigol megis safle archfarchnad, efallai y bydd angen i’r corff cymeradwyo gynnal archwiliadau o bryd i’w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a’u cadw’n ddigonol a’u bod yn gweithredu fel y’u cymeradwywyd. Caiff yr awdurdod lleol (sef y corff cymeradwyo hefyd) ddefnyddio’r pwerau sydd ar gael iddo o dan ddeddfwriaeth arall[72] i adennill costau cysylltiedig.

[72] Megis, er enghraifft, adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003

# Adran 5: Pan fydd pethau yn mynd o chwith

## Datrys anghytundebau – apeliadau

5.1 Credwn mai datrysiad wedi'i negodi sydd orau wrth ymdrin ag anghydfodau ynglŷn â phenderfyniadau cyrff cymeradwyo. Fodd bynnag, darperir dull ffurfiol o apelio i Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

5.2 Ceir manylion llawn am y weithdrefn apelio, gan gynnwys sut y gellir cyflwyno apêl, yr wybodaeth sydd i'w darparu, dyletswyddau'r corff cymeradwyo o ran darparu gwybodaeth, terfynau amser ar gyfer penderfyniadau apeliadau a'r dyletswyddau penodol ar Weinidogion Cymru, yn y rheoliadau[73].

5.3 Dylid nodi nad yw cyflwyno apêl yn atal penderfyniad dros dro ac ni chaniateir i ddatblygwr sy'n apelio yn erbyn un o amodau cymeradwyaeth ddechrau adeiladu.

**Penderfyniadau cyrff cymeradwyo y gellir apelio yn eu herbyn a'r terfyn amser i wneud hynny**

5.4 Os na all y datblygwr na'r corff cymeradwyo ddatrys anghydfod ynglŷn â phenderfyniad gan y corff cymeradwyo mewn ffordd sy'n dderbyniol i'r naill a'r llall, a all ymwneud â'r canlynol:

- cais am gymeradwyaeth,
- amodau cymeradwyaeth, gan gynnwys amod sy'n pennu bond methu â chyflawni,
- cais i fabwysiadu system ddraenio.

5.5 caiff y datblygwr drwy hysbysiad apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn y penderfyniad. Rhaid rhoi copi o'r apêl i'r corff cymeradwyo ar yr un pryd. Yn ymarferol, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru fydd yn ymdrin â'r apêl ar ran Gweinidogion Cymru. Mae copi o'r ffurflen sydd ei hangen i gyflwyno apêl ar gael drwy gysylltu â Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru:

- Gwefan: https://www.llyw.cymru/penderfyniadau-cynllunio-ac-amgylchedd-cymru
- E-bost: PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru
- Ffôn: 0300 123 1590

5.6 Rhaid cyflwyno apêl i Weinidogion Cymru (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru) ac anfon copi at y corff cymeradwyo o fewn y terfyn amser a bennwyd mewn rheoliadau,[74] fel a ganlyn:

[73] Gweler Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018
[74] Gweler rheoliad 5 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018

- Rhaid gwneud apêl sy'n ymwneud â chais am gymeradwyaeth neu archiad i fabwysiadu o fewn y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â:
- Rhaid gwneud unrhyw apêl ynghylch amod cymeradwyaeth, gan gynnwys amod sy'n pennu bond methu â chyflawni, o fewn y cyfnod o 6 mis yn dechrau â'r dyddiad y rhoddwyd y gymeradwyaeth.

| **Math o apêl** | **Naill ai** | **Neu** |
|---|---|---|
| Cais am gymeradwyaeth (heblaw am benderfyniad ynghylch amod) | Dyddiad y penderfyniad | Os yw'r apêl yn erbyn gwrthodiad tybiedig y cais sy'n deillio o fethiant y corff cymeradwyo i benderfynu ar y cais o fewn y cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau,[75] ar ddiwrnod olaf y cyfnod hwnnw. |
| Archiad i fabwysiadu | Dyddiad y penderfyniad | Os yw'r apêl yn erbyn gwrthodiad tybiedig yr archiad sy'n deillio o fethiant y corff cymeradwyo i benderfynu ar yr archiad o fewn y cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau[76] |

5.7 Hefyd, rhaid i'r apelydd nodi dull apelio a ddewisir:

- Sylwadau ysgrifenedig
- Gwrandawiad llafar
- Ymchwiliad

5.8 Gellir cyflwyno apeliadau yn electronig neu drwy'r post. Caiff yr apelydd dynnu apêl yn ôl ar unrhyw adeg drwy hysbysu Gweinidogion Cymru (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru) yn ysgrifenedig, ac anfon copi at y corff cymeradwyo.

## Gorfodi

5.9 Ceir manylion llawn am y ffordd y mae'r gyfundrefn orfodi yn gweithio yn y Gorchymyn.[77] Mae'r Gorchymyn yn darparu darpariaethau tebyg i'r rhai sydd ar gael o dan ddeddfwriaeth gynllunio lle y bo'n ddichonadwy ac yn ymarferol ond mae'n gwyro pan fydd angen adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y cyfundrefnau, megis y ddyletswydd i fabwysiadu.

[75] Gweler rheoliad 5 o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[76] Gweler rheoliad 7 o Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[77] Gweler Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018.

5.10 Caiff y corff cymeradwyo a'r ACLl drefnu mai'r ACLl fydd yn arfer y swyddogaethau gorfodi ar ran y corff cymeradwyo.[78]

5.11 Er mwyn penderfynu a yw'r gofyniad i gymeradwyo wedi cael ei dorri, caiff y corff cymeradwyo arfer pwerau mynediad a rhoi hysbysiad stop dros dro. Rhaid i'r hysbysiad stop dros dro nodi manylion y gweithgarwch y credir ei fod yn dor rheol a gwahardd y datblygwr rhag parhau â'r gweithgarwch.

5.12 Caiff y corff cymeradwyo, ar ôl ymgynghori â'r datblygwr ardystio[79] nad yw'r system ddraenio:

- wedi cael ei hadeiladu yn unol â'r cynigion cymeradwy, neu
- ei bod yn annhebygol o gael ei chwblhau.

5.13 Os felly, caiff y corff cymeradwyo, gan ddefnyddio'r bond methu â chyflawni, drefnu i unrhyw waith gael ei gyflawni er mwyn sicrhau bod y system ddraenio yn cael ei chwblhau i gydymffurfio â'r Safonau SDCau Statudol.

5.14 O fewn 4 wythnos i gwblhau'r gwaith, rhaid i'r corff cymeradwyo: anfon cyfrif llawn at y datblygwr o unrhyw symiau a gafwyd o dan y bond sydd wedi eu defnyddio i ddiwallu cost gwneud y gwaith, talu unrhyw fond dros ben a rhyddhau'r bond.[80]

**Hysbysiadau gorfodi**

5.15 O dan y Gorchymyn[81] os bydd datblygwr yn torri'r gofyniad am gymeradwyaeth, caiff y corff cymeradwyo roi hysbysiad gorfodi. Gellir rhoi hysbysiad gorfodi ar unrhyw adeg cyn bod system ddraenio ar gyfer y gwaith adeiladu yn cael ei mabwysiadu, ond heb fod yn hwyrach na phedair blynedd ar ôl i'r gofyniad gael ei dorri. Caiff yr hysbysiad gorfodi ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr gymryd camau penodol i unioni'r achos o dorri'r gofyniad neu fethiant i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi.

5.16 Caiff datblygwr sydd wedi cael hysbysiad gorfodi apelio drwy hysbysiad i Weinidogion Cymru (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru) yn erbyn y penderfyniad ar y seiliau ei fod: yn seiliedig ar wall ffeithiol, yn anghywir o dan y gyfraith, yn afresymol neu nad oedd y gofyniad am gymeradwyaeth wedi cael ei dorri.

---

[78] Gweler erthygl 3 o Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018.
[79] Gweler paragraff 12(2) a 12(3) o Ddeddf 2010.
[80] Gweler rheoliad 7(3) o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[81] Gweler erthyglau 8-20 o Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018. Adran 6 : Nodiadau cyngor ar gyfer dylunio ac adeiladu SDCau mewn lleoliadau gwahanol

# Adran 6: Nodiadau cyngor ar gyfer dylunio ac adeiladu SDCau mewn lleoliadau gwahanol

## Cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo

6.1 Yng Nghymru, mae ceisiadau i Gorff Cymeradwyo SDCau (corff cymeradwyo) yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer unrhyw waith adeiladu newydd o 100 metr sgwâr neu fwy. Dyletswydd statudol a gyflawnir gan yr awdurdod lleol yw swyddogaeth y corff cymeradwyo.

6.2 Mae'r nodiadau hyn yn rhoi arweiniad ar rai o'r cynigion draenio dŵr wyneb y byddai'n ofynnol cael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo yn eu cylch. Bwriedir i'r nodiadau fod at ddefnydd ceiswyr ond efallai y byddant yn ddefnyddiol i asiantau a datblygwyr.

## Pam mae angen SDCau?

6.3 Mae SDCau yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru ar gyfer ardaloedd adeiladu sy'n hafal i 100 metr sgwâr neu fwy. Y rheswm dros hyn yw bod y defnydd o SDCau yn helpu i leihau perygl llifogydd ymhellach i lawr y system, yn gwella ansawdd dŵr, ac yn lleihau'r pwysau ar y system garthffosiaeth bresennol. Maent hefyd yn helpu i ddarparu mwy o fioamrywiaeth, gwell cynefinoedd bywyd gwyllt a buddiannau amwynder i bobl.

6.4 Mae SDCau yn rheoli dŵr mewn ffordd sy'n efelychu natur, gan leihau'r ddibyniaeth ar ddulliau megis gwlis a phibellau. Mae SDCau yn casglu dŵr glaw yn agos i'r man lle mae'n disgyn er mwyn lleihau ac arafu'r dŵr sy'n cael ei drosglwyddo ymhellach i lawr y system. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â systemau pibellau claddedig confensiynol gynt sy'n cyfleu dŵr yn gyflym ac sy'n gallu achosi llifogydd a phroblemau o ran ansawdd dŵr ymhellach i lawr y system. Gall SDCau hefyd wella amwynder a bioamrywiaeth mewn ffyrdd na all systemau claddedig ei wneud.

## Sut i ddefnyddio'r nodiadau hyn

6.5 Dylid darllen y nodiadau hyn ar y cyd â'r canllawiau statudol blaenorol i gyrff cymeradwyo a Safonau cenedlaethol statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (Safonau Statudol) Llywodraeth Cymru. Rhaid i geiswyr ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau Statudol er mwyn cael cymeradwyaeth y corff cymeradwyo, ond nid oes angen i'r broses o ddylunio draen a gwneud cais i'r corff cymeradwyo gael ei chyflawni gan weithiwr proffesiynol ym maes draenio, ond bydd hyn yn dibynnu ar gymhlethdod y safle a'r datblygiad arfaethedig. Argymhellir trafodaeth gynnar â'ch corff cymeradwyo lleol cyn unrhyw ddyluniad neu gais posibl a gall hyn eich helpu i benderfynu a fydd angen ichi gael cymorth proffesiynol i ymgymryd â'r rhain.

## Gofynion ar gyfer Ceisiadau Chwareli a Mwyngloddiau

6.6 Gall gweithrediadau chwareli a mwyngloddiau fod ymhlith y datblygiadau cymhwysol (nad ydynt yn esempt) yng Nghymru sy'n ysgogi'r trothwy 100 metr sgwâr i gael cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (y corff cymeradwyo) cyn bod gwaith adeiladu yn dechrau. Gall gweithrediadau o'r fath darfu ar batrymau draenio naturiol, gan gynyddu'r risg o ddŵr ffo, disodli dŵr daear, llifogydd a llygredd.

6.7 Er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn, rhaid i ddatblygwyr ddylunio systemau draenio sy'n cydymffurfio â Safonau SDCau Statudol Gweinidogion Cymru. Mae'r gofyniad hwn yn sicrhau bod dŵr wyneb a dŵr daear yn cael eu rheoli'n effeithiol i atal llifogydd, diogelu ansawdd dŵr, a chefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol. Gall dechrau ar y gwaith heb gymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo arwain at gamau gorfodi, gan gynnwys hysbysiadau stop, o dan Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018.

### Gofynion Allweddol

- **Cymeradwyaeth Orfodol ar gyfer SDCau:** Ni chaiff unrhyw waith adeiladu na chloddio ddechrau heb gymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo
- **Dyluniad Integredig**: Rhaid i strategaethau draenio ddilyn egwyddorion SDCau:
    - Rheoli dŵr yn agos i'w darddle.
    - Defnyddio nodweddion naturiol (pantiau, basnau ymdreiddio, gerddi glaw).
    - Sicrhau manteision o ran ansawdd dŵr, gwella a chynnal bioamrywiaeth, ac amwynder ochr yn ochr at atal llifogydd.
- **Rheoli Dŵr Daear:** Rhaid i ddŵr daear y deuir ar ei draws wrth chwarela gael ei reoli o dan gynlluniau cymeradwy. Mae gollwng i mewn i systemau wyneb yn gofyn am ganiatâd ymlaen llaw.
- **Ymgysylltu Cyn Gwneud Cais:** Cynghorir yn gryf y dylid ymgynghori â swyddogion y corff cymeradwyo (ac ymgyngoreion statudol, ble y bo'n riodol) ar gam cynnar er mwyn sicrhau cydymffurfedd ac addasrwydd o ran y safle penodol.

6.8 Am ragor o arweiniad, dylai'r rhai sy'n ymgymryd â gweithrediadau chwarela hefyd ymgynghori â'r canlynol:

- Porth SAB yr awdurdod lleol perthnasol i gael ffurflenni a chanllawiau.
- Safonau Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (Llywodraeth Cymru, 2018).
- Y Llawlyfr ar SDCau (CIRIA C753).

- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol.
- Cyfoeth Naturiol Cymru: Adeiladu mewn Ardaloedd Perygl Llifogydd (Ebrill 2025)

## Gofynion ar gyfer Ceisiadau Coedwigaeth

6.9 Mae gweithrediadau coedwigaeth ymhlith y datblygiadau cymhwysol yng Nghymru a all ysgogi'r trothwy 100 metr sgwâr i gael cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (y corff cymeradwyo) cyn bod gwaith adeiladu yn dechrau.

6.10 Er bod gweithrediadau coedwigaeth yn aml ymhell o aneddiadau trefol ac y gall coedwigoedd sydd wedi'u rheoli'n dda gynnig manteision lluosog ar gyfer yr amgylchedd dŵr, gall llawer o arferion rheoli coedwig gael effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr drwy darfu ar bridd a llystyfiant neu drwy newid llwybrau symudiadau dŵr.

6.11 Pan fydd coedwigoedd yn cael eu rheoli'n wael gall hynny leihau neu ddadwneud y manteision a gynigir gan goedwigoedd a choetiroedd, cyfrannu at lifogydd lleol ac achosi risg o lygredd dŵr difrifol (e.e. drwy gynyddu dŵr ffo dyddodion ac afloywder dŵr).

6.12 Mae'r gofyniad hwn yn sicrhau bod dŵr wyneb a dŵr daear yn cael eu rheoli'n effeithiol i atal llifogydd, diogelu ansawdd dŵr, a chefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol. Gall dechrau ar y gwaith heb gymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo arwain at gamau gorfodi, gan gynnwys hysbysiadau stop, o dan Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018.

### Gofynion Allweddol

- **Cymeradywaeth Orfodol ar gyfer SDCau:**Ni chaiff unrhyw weithgarwch adeiladu (gan gynnwys newid lefelau a ffurfio ffyrdd cludo ac ardaloedd parcio neu bentyrru) ddechrau nes cael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo (paragraff 7(1) o Atodlen 3). Noder efallai y bydd angen caniatadau eraill, megis Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin hefyd.
- **Cydymffurfio ag arferion da:** Er y bydd ceisiadau am gymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo yn cael eu hasesu yn unol â Safonau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy, bydd y defnydd o arferion rheoli coedwigoedd cynaliadwy da, er enghraifft, fel y'u hamlinellwyd yn Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) a'r Canllaw Ymarferol cysylltiedig yn cydweddu â chael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo fel arfer. Mae UKFS yn cadarnhau bod cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo yn **ofyniad cyfreithiol**.
- **Gweithio gyda Phrosesau Naturiol:** Dylid cynllunio trefn a dilyniant gwaith mewn perthynas â llwybrau symudiadau dŵr a ffrydiau neu gyrsiau dŵr presennol ac ardaloedd clustogi cysylltiedig. Gellir

defnyddio'r goedwig ei hun i helpu i reoli dŵr ffo drwy adael i'r dŵr ollwng, ymledu ac arafu ar ardaloedd wedi'u plannu, mwy gwastad.

- **Ymgysylltu Cyn Gwneud Cais:** Anogir yn gryf y dylid ymgynghori â swyddogion y corff cymeradwyo (ac ymgyngoreion statudol, ble y bo'n briodol) ar gam cynnar er mwyn cydymffurfedd ac addasrwydd o ran y safle penodol.

### Canllawiau Pellach

Dylai ceiswyr ymgynghori â'r canlynol:

- Tudalennu Cyngor SAB ar gyfer ffurflenni a chanllawiau
- Safonau cenedlaethol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (SDCau) | LLYW.CYMRU
- Gwybodaeth ac Adnoddau Cymdeithas SAB Cymru
- Safon Coedwigaeth y DU - GOV.UK a Managing forest operations to protect the water environment - Forest Research

## Datblygiadau annedd unigol ac amaethyddol

6.13 Mae'r nodiadau manylach a ganlyn yn yr adrannau isod wedi'u llunio i roi rhai canllawiau penodol ynglŷn â sut y gellid cyrraedd y safonau ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiad:


- Anheddau unigol
- Estyniadau
- Ardaloedd Parcio a Mynediad
- Adeiladau Amaethyddol
- Gorchuddion
- Iardiau Glân

6.14 Yn achos datblygiadau amaethyddol, yn ogystal â'r nodiadau cyffredinol a roddir isod, efallai y bydd darpar geiswyr am edrych ar y canllawiau technegol manwl ar gymhwyso'r Safonau SDCau Statudol sydd ar gael drwy dudalennau SDCau Llywodraeth Cymru.

### Beth yw SDCau?

6.15 Mae nodweddion SDCau ar ffurfiau gwahanol ac maent yn ymgyfuno i greu system.

6.16 Yn achos anheddau unigol, y nodweddion yn Ffigur 1 isod yw'r rhai mwyaf addas fel arfer ar gyfer SDCau. Bydd angen o leiaf un nodwedd (ond sawl nodwedd sy'n gysylltiedig â'i gilydd fel arfer) er mwyn cyrraedd y Safonau Statudol, gweler Ffigur 2.




6.17 Mewn lleoliadau amaethyddol, mae'r gofyniad i gael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo yn cynnwys adeiladau, toeau, neu orchuddion newydd, ynghyd ag ardaloedd palmentydd cysylltiedig, sy'n gwneud cyfanswm o fwy na 100 metr sgwâr yn ardal y cynllun. Er enghraifft, codi a/neu orchuddio ardal bwydo da byw, adeilad i anifeiliaid neu storfa silwair neu slyri. Gweler Ffigur 2 am enghreifftiau o nodweddion SDCau sydd fwyaf addas i'w defnyddio mewn lleoliadau amaethyddol.



**Toeau gwyrdd**
Ardaloedd o lystyfiant sydd wedi'u gosod ar ben adeiladau a strwythurau. Mae golwg da arnynt, maent yn lleihau dŵr glaw ffo ac yn darparu bioamrywiaeth.



**Casglu dŵr glaw**
Yn berffaith ar gyfer casglu dŵr glaw o doeau a'i ddefnyddio o gwmpas y safle fel dŵr yfed i anifeiliaid, i lanhau offer neu ddyfrhau. Gall hyn arbed arian ar filiau dŵr blynyddol. Mae angen cafnau.



**Draeniau hidlo**
Mae'r rhain yn gweithio'n dda wrth ochr traciau mynediad a meysydd parcio bychain. Maent yn glanhau dŵr glaw sy'n llifo o'r arwynebau hyn, a all gael ei halogi gan gerbydau.



**Trapiau gwaddodion**
Mae'r rhain yn tynnu gwaddodion sydd wedi'u cymysgu â dŵr glaw. Mae hyn yn gwella ansawdd y dŵr ac yn lleihau'r perygl o rwystro nodweddion SuDS eraill i lawr yr afon (e.e. pantiau).



**Basnau ymdreiddio**
Pantiau â llystyfiant sy'n storio dŵr glaw ar yr arwyneb tra mae'n ymdreiddio'n araf i'r tir oddi tano.



**Pantiau**
Sianeli llystyfiannol o feintiau a siapiau gwahanol i gludo, storio a glanhau dŵr glaw ffo. Mae'r rhain yn darparu amwynder a bioamrywiaeth hefyd.



**Gwlyptiroedd**
Dŵr bas parhaol â phlanhigion sy'n wych am lanhau dŵr glaw. Gall y dŵr ddyfnhau rhywfaint yn ystod glawiad i ddarparu cyfaint storio.



**Pyllau**
Yn debyg i wlyptiroedd ond â dŵr dyfnach. Mae'r rhain yn wych am storio a glanhau dŵr, ac maent yn cynnal bywyd dyfrol ychwanegol.

Ffigur 2 – Nodweddion SuDS nodweddiadol sy'n cael eu defnyddio mewn amaethyddiaeth

6.18 Pan fydd angen i nodweddion SDCau fod yn gysylltiedig â'i gilydd, gellir defnyddio ffosydd, pantiau neu bibellau i gludo'r dŵr glaw. Dylid defnyddio ffosydd neu bantiau lle bo modd cludo dŵr ar yr wyneb gan y bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'w cynnal a'u cadw (h.y. cael gwared ar rwystrau). Mae cadw dŵr yn agos i'r wyneb hefyd yn gallu bod yn llai costus i'w hadeiladu a chynnig manteision o ran amwynder a bioamrywiaeth.

6.19 Mae Llawlyfr CIRIA ar SDCau yn rhoi gwybodaeth fanwl am ddylunio, adeiladu a chynnal a chadw nodweddion SDCau.

## Cymhwyso'r Safonau Statudol mewn lleoliad trefol a mewn lleoliad amaethyddol

Dylid cyfeirio at y Safonau Statudol i gael esboniad llawn o sut gellir cyflawni pob un. I grynhoi, dyma'r Safonau Statudol:

**Safon 1 – Cyrchfan dŵr wyneb ffo**
I ble y bydd y dŵr glaw yn cael ei ryddhau pan fydd wedi cael ei reoli gan SuDS ar y safle.


**Safon 2 – Rheolaeth hydrolig ar ddŵr wyneb ffo**
Lleihau cyfradd a chyfaint y dŵr sy'n cael ei ryddhau. Mae hyn yn gofyn am storio dŵr glaw y gellir ei ddarparu gan nodweddion SuDS.

**Safon 3 – Ansawdd dŵr**
Lleihau llygredd o'r dŵr ar ôl iddo ddisgyn ar arwyneb.


**Safon 4 – Amwynder**
Defnyddio SuDS i wella mannau ar gyfer pobl.

**Safon 5 – Bioamrywiaeth**
Creu, gwarchod a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt.

**Safon 6 – Dylunio draenio ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw**
Sicrhau bod y dyluniad yn gallu cael ei adeiladu a'i gynnal a'i gadw'n ddiogel, yn gost-effeithiol, ac yn gynaliadwy ar hyd oes y datblygiad.



# Cymhwyso’r Safonau Statudol mewn lleoliad trefol a mewn lleoliad amaethyddol



**Beth yw Cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo SDCau?**

6.20 Mae wedi bod yn ofynnol ceisio cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo yng Nghymru ers mis Ionawr 2019. Tîm o bobl yn yr awdurdod lleol yw'r corff cymeradwyo. Dylai ceiswyr ymgyfarwyddo â'r Safonau Statudol cyn gwneud cais i gorff cymeradwyo.

6.21 Mae cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo yn wahanol i gymeradwyaeth gynllunio ac ar wahân iddi. Mae'n arfer gorau ystyried gofynion draenio'r safle rydych yn bwriadu adeiladu arno ar gam cynnar, cyn eich bod yn datblygu'ch cynlluniau adeiladu. Dyma un o effeithiau bwriadedig y ddeddfwriaeth. Drwy ystyried gofynion draenio ar gam cynnar dylai hynny arwain at well dyluniad a gall arbed amser ac arian i geiswyr o ran cael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo a chymeradwyaeth gynllunio, am y rhesymau a nodir isod.

6.22 Er ei fod yn beth da ystyried cymeradwyaeth gynllunio a chymeradwyaeth system ddraenio gynaliadwy, ochr yn ochr â'i gilydd, efallai y bydd yn fwy diogel cael cymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo cyn gwneud cais cynllunio. Nid yw adeiladau sydd wedi'u dylunio heb ystyried draenio ar gam cynnar, ac yn enwedig y rhai lle na roddir ystyriaeth briodol i ddraenio nes ceisio cymeradwyaeth gynllunio, yn debygol o gyrraedd y Safonau Statudol Gofynnol ar gyfer SDCau. Pan fydd ceisiadau cynllunio wedi cael eu cymeradwyo, ond nad yw ceisiadau ar gyfer SDCau wedi cyrraedd y safonau sy'n ofynnol, yna efallai y bydd angen ailgyflwyno'r cais cynllunio a'r cais i'r corff cymeradwyo. **Mae'n anghyfreithlon dechrau ar waith adeiladu nes bod corff cymeradwyo wedi rhoi cymeradwyaeth.**


6.23 Er ei bod y tu hwnt i gwmpas y nodyn hwn i roi cyngor ar ofynion cynllunio, bydd angen o hyd i'r rhai sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio cyn ceisio cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo ystyried gofynion Datganiad Draenio TAN15 fel rhan o'r broses gymeradwyo gynllunio. Ceir rhagor o fanylion am hyn yma. Dylid bod yn ymwybodol y bwriedir i'r gofyniad ar gyfer Datganiad Draenio roi hyder i'r awdurdod cynllunio bod y ceisydd cynllunio yn ymgymryd â'r gwaith paratoi sydd ei angen i'w gwneud yn debygol y bydd yn cael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo: nid yw'r Datganiad Draenio yn gwarantu y bydd cymeradwyaeth fanwl gan gorff cymeradwyo wedyn yn cael ei rhoi (ac ni all wneud hynny).

6.24 **Argymhellir y dylid cael sgwrs gychwynnol gyda'r corff cymeradwyo ('ymgysylltu'n gynnar') ac yna gyngor manylach cyn gwneud cais er mwyn helpu i sicrhau bod y cais i'r corff cymeradwyo yn llwyddiannus ac osgoi oedi cyn dechrau ar y gwaith adeiladu.** Ni chodir tâl am y cyngor ar y cam ymgysylltu'n gynnar fel arfer; mae'n bosibl y bydd ffioedd cysylltiedig yn cael eu codi am gyngor cyn gwneud cais (sy'n benodol i bob corff cymeradwyo lleol).


| Awdurdod Lleol | Cysylltu â’r Corff Cymeradwyo (SAB) drwy e-bost |
|---|---|
| Blaenau Gwent* | SAB@merthyr.gov.uk |
| Pen-y-bont ar Ogwr | SAB@bridgend.gov.uk |
| Sir Gaerfyrddin | SAB@sirgar.gov.uk |
| Caerdydd | SAB@cardiff.gov.uk |
| Ceredigion | SAB@ceredigion.gov.uk |
| Conwy | sab@conwy.gov.uk |
| Caerffili | SAB@caerphilly.gov.uk |
| Sir Ddinbych | landdrainage.consultations@denbighshire.gov.uk |
| Sir y Fflint | SAB@Flintshire.gov.uk |
| Gwynedd | ccs@gwynedd.llyw.cymru |
| Ynys Môn | PEMHT@anglesey.gov.uk |
| Merthyr Tudful | SAB@merthyr.gov.uk |
| Sir Fynwy | sab@monmouthshire.gov.uk |
| Castell-nedd Port talbot | SAB-HDC@npt.gov.uk |
| Casnewydd | sab@newport.gov.uk |
| Sir Benfro | SAB@pembrokeshire.gov.uk |
| Powys | sab@powys.gov.uk |
| Rhondda Cynon Tâf | SAB@rctcbc.gov.uk |
| Abertawe | sab@swansea.gov.uk |
| Torfaen* | sab@torfaen.gov.uk |
| Bro Morgannwg | sab@valeofglamorgan.gov.uk |
| Wrecsam | sab@wrexham.gov.uk |

**Pryd bydd angen cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo?**

6.25 Mae’n ofyniad cyfreithiol cael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo ar gyfer datblygiadau newydd sy’n ymestyn dros ardal adeiladu o 100 metr sgwâr neu fwy ac iddynt ‘oblygiadau draenio’. Mae hyn yn golygu bod angen SDCau i godi adeiladau a/neu arwynebeddau y mae cyfanswm eu hôl troed yn hafal i 100 metr sgwâr neu fwy na hynny. Cyfanswm ôl troed y gwaith yw’r ardal adeiladu.




Ffigur 3 - Enghraifft o ddatblygiad preswyl lle mae cyfanswm yr ardal adeiladu yn fwy na 100 metr sgwâr





Ffigur 4 - Enghraifft o ddatblygiad amaethyddol lle mae cyfanswm yr ardal adeiladu yn fwy na 100 metr sgwâr


## Goblygiadau o ran Draenio

6.26 Rhaid bod datblygiad yn ymestyn dros dir ac yn cael effaith ar allu'r tir i amsugno dŵr glaw er mwyn iddo fod â 'goblygiadau draenio' a thrwy hynny gyfrif tuag at y trothwy o 100 metr sgwâr sy'n ei gwneud yn ofynnol gosod system ddraenio gynaliadwy.

6.27 Os ydych yn ansicr a oes gan eich datblygiad arfaethedig 'oblygiadau draenio' dylech geisio cyngor gan eich corff cymeradwyo.




Ffigur 1 – Cyn adeiladu




Ffigur 2 – Ar ôl adeiladu – enghraifft o oblygiadau draenio

## Gwahanol fathau o adeiladau ac arwynebau lle mae angen cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo

6.28 Bydd angen cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo ar y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd os yw eu hardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy. Os oes amheuaeth, dylid cadarnhau hyn â'r corff cymeradwyo. Gall datblygiadau â goblygiadau draenio ac ôl troed sy'n cyfrannu at 100 metr sgwâr neu fwy gynnwys:

| **Enghreifftiau mewn Lleoliadau Trefol** | |
|---|---|
| Arwynebau newydd: | Adeiladau a thoeau newydd: |
| • Llwybrau troed<br>• Dreifiau<br>• Ardaloedd parcio<br>• Patios | • Estyniadau i dai<br>• Ystafelloedd gwydr<br>• Garejis<br>• Siediau |
| Unrhyw arwyneb newydd arall. | Unrhyw adeilad neu do newydd arall. |
| Sylwer: Byddai dreif graean newydd yn cael ei gynnwys yn rhan o'r 100 metr sgwâr, ond byddai hefyd yn cyfrannu fel datrysiad SuDS gan ei fod yn fath o arwyneb athraidd. | Sylwer: Bydd angen cymeradwyaeth SAB hefyd ar gyfer dymchwel adeiladau presennol ac ailadeiladu ar yr un ôl troed (hyd yn oed os yw o'r un maint). |

Enghreifftiau mewn Lleoliadau Gwledig

Arwynebau a strwythurau newydd fel:

- Llwybrau troed
- Ffyrdd a thraciau mynediad
- Meysydd parcio
- Traciau mynediad
- Iardiau glân
- Tanciau slyri agored, pentyrrau silwair ac ardaloedd bwydo anifeiliaid*

Unrhyw arwyneb neu strwythur newydd arall…




Ffigur 7 – Traciau mynediad
(Drwy gwrteisi CLA)

Adeiladau a thoeau newydd fel:

- Gorchuddion iardiau/ardaloedd bwydo
- Gorchuddion storfeydd/slyri
- Gorchuddion lagwnau
- Siediau pacio
- Stablau
- Adeiladau fferm
- Toiledau compost
- Podiau glampio

Unrhyw adeilad neu do newydd arall…



Ffigur 9 – Toeau adeiladau a gorchuddion iardiau
(Drwy gwrteisi KebeK)



Ffigur 9 – Podiau glampio a thraciau mynediad cysylltiedig
(Drwy gwrteisi campsites.co.uk)

## Rhyngweithio rhwng gofynion deddfwriaethol SDCau a Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

6.29 Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (y rheoliadau ynglŷn â slyri) yn cyfeirio at ddau lif sy'n gysylltiedig â slyri:

- slyri
- dŵr sydd ychydig yn fudr

6.30 Nid yw'r naill na'r llall yn addas i'w drin mewn SDCau gan na fyddai lefel yr halogiad yn cael ei rheoli'n ddigonol gan unrhyw fath presennol o gynllun dylunio system ddraenio gynaliadwy ac felly dylent gael eu rheoli o dan y rheoliadau presennol ynglŷn â slyri.

6.31 Fel arfer, *ni* fyddai'r gofynion ar gyfer SDCau yn gymwys i storfeydd o slyri os ydynt *heb* do, a hynny gan dybio bod yr holl "ddŵr glaw" (fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 1(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010), yn cael ei gyfyngu yn y storfa, gan nad oes angen SDCau fel arfer yn yr enghreifftiau hynny gan nad oes unrhyw ddŵr ffo o'r ardal.

6.32 Fodd bynnag, *gallai* dŵr glaw heb ei halogi â slyri ddod o dan y ddeddfwriaeth ynglŷn â SDCau statudol o bosibl, pe bai dŵr glaw o ardal adeiladu newydd o 100 metr sgwâr neu fwy yn mynd i mewn i'r dalgylch. I weld enghraifft o sut y gallai hyn fod yn gymwys, gweler y llun ar dudalen 40 o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: canllawiau ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir.

6.33 Enghraifft arall o hyn fyddai lle yr ychwanegwyd to newydd at gyfleuster slyri, sy'n draenio dŵr glaw, a thrwy hynny leihau cyfaint y slyri hylifol y mae angen ei reoli o dan y rheoliadau ynglŷn â slyri. Pe bai'r llif hwn yn dod o ardal do o 100 metr sgwâr neu fwy, yna byddai angen cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo ar gyfer yr ardal honno.

6.34 Yr enw ar Safon S1 o Safonau SDCau Statudol Cymru yw *"Cyrchfan Dŵr Wyneb Ffo."* Mae'n nodi'r drefn ofynnol a ffefrir o ran ble mae'n rhaid gollwng dŵr wyneb, sy'n blaenoriaethu ymdreiddio a draenio naturiol o flaen unrhyw gysylltiad â charthffosydd. O dan y safon hon, cynaeafu dŵr glaw fyddai'r opsiwn gollwng cyntaf i'w ystyried ac, yn anochel, caiff hyn ei ddefnyddio mewn lleoliadau amaethyddol i leihau gofynion dŵr yfed. Fodd bynnag, os defnyddir y datrysiad hwn nid yw hynny'n golygu nad oes angen cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo, gan fod yn rhaid tybio bod unrhyw danc dŵr glaw yn llawn wrth gyfrifo am unrhyw ddigwyddiad glaw. Hynny yw, bydd to newydd o'r fath bob amser yn creu llwybr llif newydd o ganlyniad i'w osod, a rhaid ei wahanu oddi wrth unrhyw lif o slyri neu 'ddŵr sydd ychydig yn fudr'.

## Ymgymryd â dylunio datblygiadau annedd unigol a gwneud cais i'r corff cymeradwyo

6.35 Er mwyn sicrhau bod y broses o wneud cais mor syml â phosibl, y ffactor hollbwysig yw rheoli dŵr ar y safle lle bynnag y bo modd drwy SDCau ymdreiddio.

6.36 Drwy reoli dŵr ar safleoedd ni fydd angen gwneud cyfrifiadau ychwanegol na chael caniatâd i ollwng dŵr (e.e. gan CNC neu Dŵr Cymru).


6.37 Os na ellir rheoli dŵr ar y safle, rhaid iddo gael ei ollwng i gwrs dŵr, draen neu garthffos addas. Dim ond pan fydd pob mesur posibl ar gyfer system ddraenio gynaliadwy i reoli'r dŵr ar y safle wedi cael ei ystyried a'i wrthod gyda chyfiawnhad y rhoddir caniatâd i wneud hyn.

6.38 Er mwyn profi bod pob mesur wedi cael ei roi ar waith bydd angen cyfrifo dŵr ffo tir glas a chael prawf o gyfraddau llif cyfyngedig a lleihad, a all ofyn am wasanaethau peiriannydd. Bydd y system ddraenio gynaliadwy sydd ei hangen yn fwy helaeth o'i chymharu â system ddraenio gynaliadwy lle mae'r llif yn ymdreiddio. Dangosir hyn yn 10 a 11.


6.39 Mae'r Safonau Statudol yn amlinellu'r blaenoriaethau canlynol o ran y cyrchfan gollwng i reoli dŵr wyneb:

| | |
|---|---|
| Lefel Blaenoriaeth 1: | Caiff dŵr wyneb ffo ei gasglu i'w ddefnyddio |
| Lefel Blaenoriaeth 2: | Bydd dŵr wyneb ffo yn ymdreiddio i'r ddaear |
| Lefel Blaenoriaeth 3: | Caiff dŵr wyneb ffo ei ollwng i gorff dŵr wyneb |
| Lefel Blaenoriaeth 4: | Caiff dŵr wyneb ffo ei ollwng i garthffos dŵr wyneb, draen priffordd, neu system ddraenio arall |
| Lefel Blaenoriaeth 5: | Caiff dŵr wyneb ffo ei ollwng i garthffos gyfun |

6.40 Mae Lefelau Blaenoriaeth 1 a 2 yn cyfateb i reoli dŵr ar y safle a chânt eu hannog yn gryf i leihau cymhlethdod y broses ddylunio, adeiladu a gwneud cais i berchennog y tir. Mae Lefelau Blaenoriaeth 3 i 5 yn gofyn am ollwng dŵr oddi ar y safle ac mae fel arfer yn gofyn am fwy o ddogfennau/cytundebau dylunio ac adeiladu a dogfennau/cytundebau cysylltiedig.




**Ffigur 10. Enghraifft o ddatblygiad annedd unigol â phriddoedd â chyfradd ymdreiddio uchel.**




**Ffigur 11. Enghraifft o ddatblygiad annedd unigol â phriddoedd â chyfradd ymdreiddio isel.**

## Proses 3 cham gan y corff cymeradwyo ar gyfer datblygiadau annedd unigol

6.41 Mae'r Mae'r diagram isod yn dangos proses dylunio ac ymgeisio nodweddiadol ar gyfer datblygiadau annedd unigol. Fel y cyfryw, nid yw'r SuDS yn cael eu mabwysiadu gan y SAB, felly'r tirfeddiannwr sy'n gyfrifol am eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw ar hyd oes y datblygiad. O ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd angen cytundebau cyfreithiol â'r SAB (ond bydd hyn yn dibynnu ar eich SAB lleol).

**Ystyried y cynigion ac ymgysylltu â'r SAB**

Wythnos 1-3

1. Adolygwch y canllawiau SuDS ac enghreifftiau.
2. Meddyliwch am ba nodweddion SuDS a allai fod yn addas o ystyried y dopograffeg, llwybrau llif presennol, nodweddion sydd eisoes yn bodoli, a mynediad. Lluniwch ddyluniad priodol.
3. Trafodwch gyda'r SAB! Gallant eich cynghori ar y broses gymeradwyo, y dogfennau sy'n ofynnol, a'ch dyluniad arfaethedig. Mae rhai SABau yn rhoi cyngor cyn-ymgeisio rhad ac am ddim.
4. Cynhaliwch brofion ymdreiddio.

→

**Amlinellu'r dyluniad a chyflwyno'r cais**

Wythnosau 4 i 6

1. Lluniwch gynllun o'ch dyluniad a gwnewch unrhyw gyfrifiadau sy'n angenrheidiol.
2. Amlygwch bartïon eraill y gallai fod angen i chi lunio cytundeb â nhw (e.e. cysylltu â chwrs dŵr/system bibellau nad ydych yn berchen arno/arni).
3. Cwblhewch y cynigion dylunio'n derfynol yn seiliedig ar gyngor cyn-ymgeisio'r SAB, gan sicrhau bod eich dyluniad yn bodloni'r Safonau Statudol perthnasol.
4. Cyflwynwch gais i'r SAB gyda'r dogfennau sy'n ofynnol yn y Rhestr Wirio Ymgeisio.

→

**Asesu a phenderfynu gan y SAB**

Wythnosau 7 i 14

**Adeiladu**

Mae'r amserlen yn amrywio, ond mae'n anghyfreithlon dechrau adeiladu cyn i chi gael cymeradwyaeth SAB.

**Cynnal a chadw**

Ar hyd oes y tŷ/yr estyniad. Mae'r tirfeddiannwr yn gyfrifol am gynnal a chadw a dylai ddilyn y cynllun cynnal a chadw a gymeradwywyd yn rhan o'r cais SAB.

## Rhestr wirio ar gyfer gwneud cais ar gyfer datblygiadau annedd unigol

6.42 Gellir defnyddio'r rhestr wirio hon i helpu i sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi cael ei chynnwys mewn cais i'r corff cymeradwyo. Gellir ei chwblhau a'i chyflwyno fel rhan o gais i'r corff cymeradwyo ar gyfer anheddau unigol, estyniadau, ac ardaloedd parcio a mynediad.

6.43 Yr eitemau ar y rhestr wirio yw'r gofynion arferol ar gyfer cais dilys. Fodd bynnag, ni fydd pob un o'r eitemau yn gymwys ym mhob achos. **Mae'n bwysig ymgynghori â'ch corff cymeradwyo lleol cyn llenwi'r cais, gan y gall leihau nifer yr eitemau y bydd angen ichi eu cwblhau.**

6.44 Efallai y bydd angen rhagor o fanylion ac arolwg ar gyfer safleoedd penodol os oes unrhyw gyfyngiadau neu risgiau sylweddol yn bresennol.

6.45 Mae Llawlyfr CIRIA ar SDCau (cyswllt allanol) yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am ddylunio, adeiladu a chynnal a chadw SDCau.

| **Safon 1 – Cyrchfan dŵr wyneb ffo** |
| --- |
| Cynllun lleoliad<br>Gall cynlluniau bloc a safle a gyflwynir yn rhan o gais cynllunio fodloni'r gofyniad hwn yn aml.<br>Dylai'r cynllun ddangos lleoliad eich safle mewn perthynas â'r ardal amgylchynol. Awgrymir graddfa 1:2500, ac fe allai fod lle i hyn ar y Cynllun Safle. |
| Cynllun(iau) safle/draenio<br>Graddfa sy'n addas i'r safle. Mae angen i hyn fod yn glir felly mae'n bosibl na fydd lle i'r cyfan ar un cynllun. Dylai gynnwys:<br>• Nodweddion presennol y safle, megis adeiladau, arwynebau, perthi, traciau, cyrsiau dŵr, draenio, ffensys, coed, ac ati<br>• Y dopograffeg bresennol, megis dalgylchoedd, a llwybrau llif ar gyfer y safle. Dylai hyn ddangos y llwybr y mae dŵr yn ei ddilyn ar hyn o bryd ar draws arwyneb y safle<br>• Maint y datblygiad arfaethedig, megis adeiladau, toeau, arwynebau, gan gynnwys cynllun arwynebedd ar gyfer pob un mewn metrau sgwâr. Dylai gynnwys unrhyw newidiadau eraill sy'n cael eu gwneud i'r safle i hwyluso adeiladu. Dylai gynnwys llinell goch o amgylch yr ardal adeiladu sy'n datgan ei maint<br>• Maint y cynllun draenio arfaethedig sy'n gwasanaethu'r safle, gan labelu pob un o'r nodweddion SuDS a gynigir ac i ble mae dŵr yn cael ei ryddhau. |
| Asesiad desg – ymchwiliad tir<br>Nodyn sy'n sôn am wiriad daearegol a hydrolegol cychwynnol. Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio:<br>• Gwasanaeth y gellir codi tâl amdano gan Arolwg Daearegol Prydain (BGS) ar gyfer mapiau ymdreiddio posibl[82] sy'n benodol i system<br>• BGS yn amlygu risgiau tir trwy eu gwasanaeth Geosure[83] y gellir codi tâl amdano<br>Fodd bynnag, dylech drafod gyda'ch SAB p'un a oes angen dadansoddiad manylach, a allai olygu bod angen peiriannydd geotechnegol â chymwysterau addas. Bydd hyn wedi'i seilio ar y risg ganfyddedig yn eich safle. |
| Cynnal a rhoi manylion profion hydreiddio (ffosydd cerrig)<br>Efallai y bydd modd cyflwyno canlyniadau o safle cymdogol (os yw'r SAB lleol yn cytuno)<br>Os yw'r safle'n amlwg yn anathraidd (e.e. clai), efallai bydd tystiolaeth ffotograffig o ddŵr mewn tyllau dros amser yn ddigonol (os yw'r SAB lleol yn cytuno)<br>Mae llawer o SABau yn fodlon i chi gynnal profion ffosydd cerrig eich hun. Os byddwch yn cynnal y prawf eich hun, bydd SABau yn gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol, fel arfer:<br>• Dyddiad y prawf/profion<br>• Amodau'r tywydd<br>• Cynllun o leoliad(au)'r prawf a chyfeirnod ar gyfer pob lleoliad (e.e. TP01, TP02 ac ati)<br>• Y fethodoleg a ddilynwyd (BRE neu CIRIA, cadarnhewch gyda'ch SAB dros y ffôn/drwy e-bost cyn ei chynnal)<br>• Llun o'r pwll/pyllau arbrofol<br>• Llun o'r pridd(oedd) a gloddiwyd<br>• Llun o'r offer mesur yn y pwll arbrofol (i ddangos ei faint)<br>• Dimensiynau'r pwll arbrofol (lled, hyd, dyfnder i'r gwaelod o lefel y tir)<br>• P'un a oedd unrhyw ddŵr daear wedi mynd i mewn i'r pwll ac, os felly, ar ba ddyfnder yr aeth i mewn iddo (dylai rhan o'r pwll arbrofol ymestyn 1m o dan lefel waelod arfaethedig y ffos gerrig i gadarnhau a yw'n dod i gysylltiad ag ef)<br>• Disgrifiad o'r haenau pridd o lefel y tir i lawr i waelod y pwll<br>• Canlyniadau'r prawf |

[82] https://www.bgs.ac.uk/datasets/infiltration-suds-map/
[83] https://www.bgs.ac.uk/datasets/geosure/

| |
|---|
| **Os yw'n berthnasol: Cytundebau/caniatadau ysgrifenedig ar gyfer rhyddhau neu i gael mynediad i dir trydydd parti**<br>Yn dibynnu ar Safon 1 – cyrchfan, gallai hyn gynnwys caniatadau a thrwyddedau rhyddhau i gyrsiau dŵr; hawliau i osod pibellau ar dir trydydd parti/hawddfreintiau; manylion hawddfraint; caniatâd gan berchennog glannau'r afon i ryddhau; cytundebau (Cysylltu) Adran 106  Deddf y Diwydiant Dŵr 1990 gan y cwmni dŵr.<br>Dylai rhyddhau oddi ar y safle fod wedi'i gyfyngu i'r gyfradd dŵr ffo maes glas. |
| Safon 2 – Rheolaeth hydrolig ar ddŵr wyneb ffo |
| Mapiau Llifogydd CNC sy'n dangos y safle<br>Mae'r rhain ar gael yn rhad ac am ddim gan ddefnyddio'r mapiau Perygl a Risg Llifogydd Cenedlaethol ar wefan CNC[84]. Gallwch argraffu mapiau i PDF o'r wefan hon i'w cynnwys yn eich cais SAB. |
| Gwirio mapiau dynodiad amgylcheddol a risgiau posibl<br>Mae'r mapiau hyn, sy'n dangos dynodiadau amgylcheddol, ar gael am ddim trwy Syllwr Mapiau CNC[85]. Gwiriwch am gyfleustodau o fewn y tir, er enghraifft gan ddefnyddio Linesearch[86]. |
| Nodweddion hydrolegol y safle<br>Crynodeb o'r nodweddion glawiad a ddefnyddiwyd ar gyfer y safle. Dylai hyn gynnwys y glawiad blynyddol cyfartalog ar gyfer y safle (SAAR), cyfraddau dŵr ffo maes glas, glawiad dylunio (1 mewn 100 o flynyddoedd), a dwysedd glawiad brig a ddefnyddiwyd i ddylunio elfennau cludo (pantiau a phibellau). |
| Dangos cydymffurfiaeth â rhyng-gipio<br>Mae meini prawf rhyng-gipio'n ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddŵr ffo o ddigwyddiad glawiad 5mm.<br>Mae'r Safonau Statudol yn darparu Tabl G2.1 sy'n rhestru nodweddion SuDS gyda chydymffurfiaeth dybiedig. Dylai'r cais ddangos bod yr holl arwynebau a nodweddion SuDS cysylltiedig yn cydymffurfio. |
| Cyfrifiadau storio ar gyfer nodweddion SuDS<br>Datgan cyfaint storio pob nodwedd SuDS a sut y'i cyfrifwyd. Mae Atodiad B Nodyn Cyngor Llywodraeth Cymru ar Geisiadau SuDS ar gyfer Adeiladau Amaethyddol, Gorchuddion ac Iardiau Glân[87] yn cynnwys enghreifftiau wedi'u gweithio. Mae'r wefan UKSuDS[88] yn darparu adnoddau am ddim sy'n gallu eich cynorthwyo i wneud cyfrifiadau.<br>• Cyfrifiad casglu dŵr glaw (os cafodd ei ddefnyddio)<br>• Cyfrifiadau dylunio ymdreiddiad (os cafodd ei ddefnyddio)<br>• Cyfrifiadau storio eraill i fodloni cyfradd ryddhau gytunedig (os cafodd ei defnyddio). |
| Cyfrifiadau hydrolig ar gyfer cludo<br>Datgan y dŵr ffo brig ar hyd pob rhedfa ddraenio a sut y'i cyfrifwyd, a chapasiti'r nodweddion cludo (e.e. pant neu bibell) a sut y'i cyfrifwyd. O ran pantiau, dylid dangos y cyfrifiad ar gyfer cyflymder brig hefyd. |
| Asesu gormodiant<br>Dylai hyn ystyried gormodiant y system a'i ganlyniadau. Bydd hyn, o leiaf, yn gynllun syml sy'n dangos llwybrau llif o wahanol nodweddion SuDS yn achos methiant neu orlif, sy'n dangos i ble y bydd y dŵr yn mynd yn y pen draw (h.y. cwrs dŵr neu bwll o fewn pant yn rhywle arall ar y safle) |
| Lluniadau manwl. Lluniadau wrth raddfa, gan gynnwys:<br>• Rhan hir o'r to neu'r arwyneb i'r gyrchfan ryddhau, sy'n dangos pob nodwedd SuDS, dull cludo a/neu ddyfais reoli a ddefnyddir. Dylai'r lefelau presennol ac arfaethedig gael eu dangos (e.e., mAOD) ynghyd â disgyniadau/graddiannau SuDS a nodweddion cludo (e.e., 1 mewn 150). Dylid amlygu lefelau dŵr uchaf pob nodwedd SuDS hefyd.<br>• O leiaf un croestoriad ar gyfer pob nodwedd SuDS gyda manylion deunyddiau/cynhyrchion, dimensiynau, graddiannau.<br>• Manylion unrhyw nodweddion fel trapiau silt, dulliau rheoli llif, argaeau atal. Weithiau, mae systemau casglu dŵr glaw yn cael eu dylunio gan gyflenwyr/gosodwyr, a bydd angen rhoi manylion hyn gan ddatgan cydymffurfiaeth â BS 8515. |

[84] https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Html5Viewer/Index.html?configBase=https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Geocortex/Essentials/REST/sites/Flood_Risk/viewers/Flood_Risk/virtualdirectory/Resources/Config/Default&layerTheme=3
[85] https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Html5Viewer210/Index.html?configBase=https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Geocortex/E
ssentials/REST/sites/External_Map_Browser/viewers/EMB_Address/virtualdirectory/Resources/Config/Default&locale=en-gb
[86] https://lsbud.co.uk/
[87] https://llyw.cymru/ceisiadau-corff-cymeradwyo-systemau-draenio-cynaliadwy-suds-ar-gyfer-adeiladau-amaethyddol
[88] https://www.uksuds.com/

| |
|---|
| *Gallai dyluniadau cysyniadol fod o gymorth mewn trafodaethau cyn-ymgeisio. Er enghraifft, darnau o'r Llawlyfr SuDS sy'n dangos cynigion. |
| Manylebau (os oes angen)<br>Gellir dangos manylebau deunyddiau ar luniadau manwl. Gellir cael manylebau'r deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer gwahanol nodweddion SuDS o'r Llawlyfr SuDS os oes angen. |
| Safon 3 – Ansawdd Dŵr |
| Cynllun Defnydd Tir<br>Cynllun sy'n dangos yn glir y gwahanol arwynebau a gynigir yn rhan o'r datblygiad a beth fyddant yn cael eu defnyddio ar ei gyfer (h.y. to GRP dros ardal fwydo, maes parcio ynghyd â'r nifer ddisgwyliedig o geir y dydd ac ati). |
| Asesiad ansawdd dŵr (os bydd yn ofynnol gan eich SAB lleol)<br>Gan dybio y defnyddir y dull mynegai syml ar gyfer Lefel Perygl Llygredd 'Isel', dylai hyn gynnwys tabl neu rywbeth tebyg sy'n dangos:<br>• Y Lefel Perygl Llygredd ar gyfer pob un o'r arwynebau a ddangosir yn y cynllun Defnydd Tir, ac arwynebedd pob arwyneb (mewn metrau sgwâr).<br>• Y nodweddion SuDS a ddefnyddir a'r Mynegeion Lliniaru ar gyfer pob un (gan ddefnyddio'r Dull Mynegai Syml yn y Llawlyfr SuDS).<br>Mae hyn wedi'i seilio ar gydymffurfio â gofynion rhyng-gipio, sef sicrhau nad oes unrhyw ddŵr ffo mewn digwyddiad glawiad 5mm (cyfeiriwch at Safon 2). Mae Ceisiadau SuDS ar gyfer Adeiladau Amaethyddol, Gorchuddion ac Iardiau Glân[89] yn cynnwys enghraifft sy'n defnyddio'r dull mynegai syml. |

| **Safon 4 – Amwynder** |
|---|
| Cynllun sy'n dangos ardaloedd amwynder<br>Ar gyfer cais o'r math hwn, disgwylir y gellir cyfuno'r cynllun hwn â'r cynllun ar gyfer Safon 5 – Bioamrywiaeth. Dylid cynnwys unrhyw nodweddion amwynder sydd wedi'u hintegreiddio o fewn y nodweddion SuDS neu ochr yn ochr â nhw. Mae'r Safonau Statudol yn nodi y bydd y SAB yn ystyried Safon 1 wrth asesu amwynder. |

| **Safon 5 – Bioamrywiaeth** |
|---|
| Cynllun plannu<br>Cynllun sy'n dangos trefniant, niferoedd a dwysedd ardaloedd hadu, planhigion a choed arfaethedig o fewn a gerllaw nodweddion SuDS. Mae'r Safonau Statudol yn nodi y bydd y SAB yn ystyried Safon 1 wrth asesu bioamrywiaeth. |

| **Safon 6 – Dylunio draenio ar gyfer adeiladu, gweithredu, a chynnal a chadw** |
|---|
| Cydnabod cyfrifoldeb am gynnal a chadw<br>Mae rhai SABau yn gofyn am ddatganiad gan y tirfeddiannwr sy'n cydnabod ei fod ef (y tirfeddiannwr) yn gyfrifol am weithredu a chynnal a chadw'r nodweddion SuDS. Ychydig linellau yw hyn, fel arfer, yn datgan cyfeiriad y safle, enw'r cynllun a'r nodweddion SuDS a fydd yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â'r atodlen/cynllun Rheoli a Chynnal a Chadw gytunedig/cytunedig. |
| Cynllun Rheoli a Chynnal a Chadw<br>Mae'n rhaid i hwn rychwantu oes y datblygiad ac fe ddylai fod yn benodol i bob nodwedd SuDS a gynigir. Dylai'r cynllun fod ar ffurf y gellir ei ddeall yn rhwydd gan y perchenogion yn y dyfodol a fydd yn gyfrifol am wneud neu drefnu'r gwaith cynnal a chadw.<br>Dylai'r cynllun:<br>• Restru pob math o elfen ddraenio (e.e. pibell) a SuDS (e.e. pant) ar wahân.<br>• Cynnwys lluniad gosodiad safle wedi'i symleiddio sy'n dangos lleoliadau'r elfennau draenio a SuDS uwchben ac o dan y tir yn glir. Dylai hyn hefyd ddangos sut y gellir cael mynediad pan fydd angen.<br>• Ar gyfer pob math o elfen ddraenio a SuDS, rhestru'r tasgau sydd i'w cynnal a pha mor aml ar hyd oes y datblygiad. Sylwer bod rhaid i hyn gynnwys gwaith adferol pan fydd oes ddylunio'r cynnyrch yn llai nag oes y datblygiad arfaethedig.<br>• Y peiriannau a ddefnyddir i gynnal a chadw pob un o'r uchod.<br>• Dylid cynnwys gwybodaeth am gynhyrchion. Er enghraifft, tystysgrifau (fel tystysgrifau BBA), llawlyfrau neu ganllawiau cynnal a chadw argymelledig ar gyfer cynhyrchion e.e. systemau gwanhau, dyfeisiau rheoli llif. |

[89] https://llyw.cymru/ceisiadau-corff-cymeradwyo-systemau-draenio-cynaliadwy-suds-ar-gyfer-adeiladau-amaethyddol

Cynllun rheoli adeiladu
Gall hwn fod yn gynllun syml sy'n dangos ym mha drefn y bydd pethau'n cael eu hadeiladu ar y safle. Dylai amlygu risgiau posibl a allai effeithio ar yr amgylchedd (e.e. gwaddodion ffo yn rhedeg i mewn i gyrsiau dŵr), yn ogystal â phethau a allai effeithio ar berfformiad tymor hir y SuDS (e.e. cywasgiad tir mewn lleoliadau ffosydd cerrig). Yna, dylai ddisgrifio'n fyr y mesurau a roddir ar waith i liniaru'r risgiau hyn.

## Ymgymryd â’r broses o ddylunio a gwneud cais ar gyfer datblygiadau amaethyddol bach

6.46 Mae diagram y siart lif ar y dudalen ganlynol yn dangos proses o ddylunio a gwneud cais nodweddiadol ar gyfer datblygiad amaethyddol bach sy’n eiddo i berchennog tir unigol. Fel y cyfyw:

- Ni fydd y SDCau yn cael eu mabwysiadu gan y corff cymeradwyo, ac felly perchennog y tir fydd yn gyfrifol amdanynt. Felly, mae cytundebau cyfreithiol rhwng perchennog y tir/y datblygwr a’r corff cymeradwyo yn annhebygol o fod yn angenrheidiol (ond bydd hyn yn dibynnu ar eich corff cymeradwyo lleol).
- Perchennog y tir sy’n gyfrifol am gynnal a chadw’r system ddraenio gynaliadwy dros oes y datblygiad.
- Bydd angen cytundebau neu ganiatadau ychwanegol cyfyngedig mewn perthynas â rhyngweithio â sefydliadau/asedau eraill. Os bydd angen caniatadau neu gytundebau ffurfiol eraill (e.e. gan CNC, cwmni dŵr neu sefydliad arall) gall y broses gymryd mwy o amser.

6.47 Yn ogystal â’r nodiadau a roddir yn yr adran hon, efallai y bydd darpar geiswyr am edrych ar y canllawiau technegol manwl ar gymhwyso’r Safonau SDCau Statudol sydd ar gael drwy dudalennau SDCau Llywodraeth Cymru.

## Enghraifft o broses gwneud cais ar gyfer system ddraenio gynaliadwy a therfynau amser dangosol ar gyfer datblygiad sy’n eiddo i berchennog tir unigol.

**Ystyriwch eich cynigion**

**Wythnos 1**

- Edrychwch ar enghreifftiau ac arweiniad ar SuDS.
- Meddyliwch am eich safle a'r gosodiad arfaethedig.
- Gallai hyn gael ei ddylanwadu gan dopograffeg, lle mae dŵr yn llifo ar hyn o bryd, nodweddion presennol fel gwrychoedd, a mynediad.
- Meddyliwch am y nodweddion SuDS fydd eu hangen arnoch.
- Trefnwch sgwrs annhechnegol â'r SAB (os ydych yn dymuno gwneud hynny).

**Sgwrs gynnar â'r SAB** *(argymhellir)*

**Wythnos 1**

- Mae llawer o SABau yn annog hyn yn gynnar yn y broses, ac yn fodlon cael sgwrs annhechnegol fer.
- Cadarnhewch a oes angen cymeradwyaeth SAB ar eich cynigion.
- Trafodwch y broses a'r amserlenni.
- Gofynnwch am unrhyw arweiniad lleol a'r Ffurflen Gais gan eich SAB.
- Cytunwch ar ddull a gofynion profion ymdreiddio.
- Trefnwch gyfarfod cyngor cyn-ymgeisio â'r SAB.

**Dyluniad amlinellol**

**Wythnos 2 i 3**

- Cynhaliwch brofion ymdreiddio.
- Cynhaliwch rai asesiadau cychwynnol, cyfrifiadau dylunio a chynlluniau/lluniadau o'r gosodiad cyn y cyngor cyn-ymgeisio â'ch SAB (cyfeiriwch at restr wirio'r cais).
- Nodwch sefydliadau neu dirfeddianwyr eraill (sy'n cael eu galw'n rhanddeiliaid) y gallai fod angen i chi gytuno ar bethau â nhw fel rhan o'ch datrysiad SuDS. Er enghraifft croesi perchenogaeth tir arall neu gysylltu â chwrs dŵr neu system bibellau nad ydych chi'n berchen arno/arni.

**Cyfarfod cyngor cyn-ymgeisio** *(argymhellir)*

**Wythnos 4**

- Cytunwch ar egwyddorion eich dyluniad a'r wybodaeth sydd ei hangen yn y cais er mwyn lleihau'r perygl o wrthod eich cais SAB.
- Ceisiwch gyngor ar eich cynigion, y dyluniad a'r hyn y bydd yn ofynnol i chi ei ddangos yn eich cais SAB (ewch drwy restr wirio'r cais).
- Yn aml, awgrymir na ddylai cais cynllunio gael ei gyflwyno tan ar ôl yr adeg hon, er mwyn lleihau'r risg o orfod cyflwyno ail gais cynllunio.
- Mae rhai SABau yn codi tâl am y gwasanaeth cyngor cyn-ymgeisio.

**Dyluniad manwl**

**Wythnos 4 i 6**

- Cadarnhewch eich cynigion dylunio a choladu'r holl gyfrifiadau, arolygon, adroddiadau a phenderfyniadau.
- Sicrhewch fod hyn yn cynnwys pob un o'r 6 Safon Statudol ac yn cynnwys yr eitemau ar restr wirio'r cais, o leiaf.
- Mae hyn yn cynnwys Cynllun Cynnal a Chadw.

**Cyflwyno'r cais SAB**

**Wythnos 7**

- Gwiriwch eich bod wedi cynnwys popeth (edrychwch ar restr wirio'r cais) a'ch bod wedi llenwi'r Ffurflen Gais a ddarparwyd gan eich SAB hefyd.
- Edrychwch ar wefan yr Awdurdod Lleol/SAB i gael manylion am ffi'r cais a sut i gyflwyno'r cais.

**Asesu a phenderfynu**

**Wythnos 7 i 14** ***(19 os oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol)***

- Os nad oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, gall hyn gymryd hyd at 7 wythnos. Mae'n bosibl y gall SAB gymeradwyo'r cais ynghynt, yn enwedig os yw'r cais SAB yn glir ac yn gyflawn.
- **Mae'n anghyfreithlon i chi ddechrau adeiladu nes i chi gael cymeradwyaeth gan y SAB.**

**Adeiladu**

**Amserlen yn amrywio**

- Gall hyn ddechrau dim ond pan fydd cymeradwyaeth y SAB ar waith.
- Efallai y bydd y SAB yn gofyn am arolygiadau yn ystod/ar ôl y gwaith adeiladu, neu efallai y bydd yn gofyn am dystiolaeth bod y gwaith adeiladu'n gyson â'r dyluniadau cymeradwy (e.e. lluniau).

**Cynnal a chadw**

**Ar hyd oes y datblygiad**

- Mae'r tirfeddiannwr yn gyfrifol am gynnal a chadw ar hyd oes y datblygiad.
- Dylai hyn ddilyn y Cynllun Cynnal a Chadw a gyflwynwyd fel rhan o'r cais SAB.
- Gall y SAB ofyn am arolygiadau er mwyn sicrhau bod y draenio'n gweithio fel y'i bwriedir, neu gall ofyn am dystiolaeth bod y gwaith cynnal a chadw yn gyson â'r cynllun cymeradwy (e.e. cofnodion a lluniau).

## Rhestr wirio ar gyfer gwneud cais ar gyfer datblygiad amaethyddol bach

> Nid yw cyngor cyn gwneud cais yn orfodol ond caiff ei argymell.
>
> Os ceisir y cyngor hwn, bydd llunio ac anfon fersynau drafft o eitemau yn y rhestr wirio hon cyn cael eich cyngor cyn gwneud cais yn helpu'r corff cymeradwyo i roi cyngor sy'n fwy penodol i'r safle. Mae eitemau a awgrymir mewn lliw glas golau, ond gall pob un o'r eitemau ar y rhestr gael eu trafod ar y cam cael cyngor cyn gwneud cais.

6.48 Mae'r rhestr wirio hon o gymorth wrth gwblhau cais i gorff cymeradwyo ar gyfer datblygiad amaethyddol bach. Mae'r eitemau ar y rhestr wirio yn cynnwys cynlluniau, lluniadau, cyfrifiadau ac asesiadau y dylid eu hatodi i'ch ffurflen gais i'r corff cymeradwyo, sydd ar gael gan eich awdurdod lleol.

6.49 Mae'r isod yn ofynion sylfaenol nodweddiadol ar gyfer cais dilys o'r fath. Efallai y bydd angen rhagor o fanylion, arolwg a gwybodaeth am eich safle penodol os oes unrhyw gyfyngiadau neu risgiau sylweddol yn bresennol.

| **Safon 1 – Cyrchfan dŵr wyneb ffo** |
|---|
| **Cynllun o'r lleoliad**<br>Dylai'r cynllun hwn amlygu lleoliad eich safle mewn perthynas â'r ardal gyfagos. Y raddfa awgrymedig yw 1:2500, a gallai hyn ffitio ar Gynllun y Safle. |
| **Cynllun(iau) y safle**<br>Graddfa sy'n addas ar gyfer y datblygiad. Mae angen i hwn fod yn glir, felly efallai na fydd y cwbl yn ffitio ar 1 cynllun. Dylai gynnwys:<br>• Nodweddion presennol y safle, fel adeiladau, wynebau, gwrychoedd, traciau, cyrsiau dŵr, draenio, ffensys, coed ac ati.<br>• Topograffeg bresennol, is-ddalgylchoedd a llwybrau llifo'r safle. Dylai hyn amlygu'r llwybr y mae dŵr yn ei ddilyn ar hyn o bryd ar draws wyneb y safle.<br>• Ehangder y datblygiad arfaethedig, fel adeiladau, toeau, wynebau gan gynnwys arwynebedd y cynllun mewn metrau sgwâr ar gyfer pob un. Dylai gynnwys unrhyw newidiadau eraill sy'n cael eu gwneud i'r safle i hwyluso'r gwaith adeiladu. Dylai gynnwys llinell goch o amgylch yr ardal adeiladu, gan ddatgan ei maint.<br>• Ehangder y cynllun draenio arfaethedig i wasanaethu'r datblygiad, gan labelu bob un o'r nodweddion SuDS arfaethedig a lle bydd y dŵr yn cael ei arllwys. |
| **Gwybodaeth am ddefnydd dŵr**<br>Cyfrifiadau a thystiolaeth o ddefnydd dŵr i gyfiawnhau casglu dŵr glaw. Os bydd y defnydd o ddŵr yn gyfyngedig neu'n amrywiol iawn, bydd angen datgan hynny, gan fod hynny'n cynnig ymresymiad dros ddefnyddio lefel nesaf yr hierarchaeth cyrchfannau. |
| **Asesiad wrth y ddesg – Ymchwiliad Tir**<br>Nodyn â gwiriad cychwynnol o ddaeareg a hydroleg. Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio:<br>• Gwasanaeth â thâl Arolwg Daearegol Prydain ar gyfer mapiau ymdreiddiad posibl[90] sy'n benodol i'r safle<br>• Arolwg Daearegol Prydain yn amlygu peryglon y tir â'r gwasanaeth Geosure[91]<br>Fodd bynnag, dylech drafod â'ch SAB ynghylch a oes angen dadansoddiad manylach, a all fod angen peiriannydd geotechnegol â chymwysterau addas ar ei gyfer. |
| **Cynnal a rhoi manylion am brofion ymdreiddio (ffosydd cerrig)**<br>Mae llawer o SABau yn fodlon i chi gynnal profion ymdreiddio eich hun. Os ydych yn cynnal y prawf eich hun, bydd SAB yn gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol, yn gyffredinol:<br>• Dyddiad y prawf/profion<br>• Y tywydd<br>• Cynllun o leoliad(au) y prawf a chyfeirnod ar gyfer pob lleoliad (e.e. TP01, TP02 ac ati)<br>• Y fethodoleg a ddilynwyd (BRE neu CIRIA, cadarnhewch â'ch SAB dros y ffôn/drwy'r e-bost cyn cynnal y prawf)<br>• Llun o'r pwll/pyllau prawf<br>• Llun o'r pridd(oedd) a gloddiwyd<br>• Llun o'r offer mesur yn y pwll prawf (i ddarparu graddfa)<br>• Dimensiynau'r pwll prawf (lled, hyd, dyfnder i'r gwaelod o lefel y tir)<br>• P'un a aeth unrhyw ddŵr daear i'r pwll ac, os felly, ar ba ddyfnder yr aeth i'r pwll (dylai rhan o'r twll prawf ymestyn 1m islaw lefel arfaethedig y ffos gerrig er mwyn cadarnhau a geir unrhyw ddŵr daear)<br>• Disgrifiad o haenau'r pridd o lefel y tir i waelod y pwll<br>• Canlyniadau'r prawf |

[90] https://www.bgs.ac.uk/datasets/infiltration-suds-map/
[91] https://www.bgs.ac.uk/datasets/geosure/

| |
|---|
| |
| **Os yw'n berthnasol: Cytundebau/caniatâd ysgrifenedig ar gyfer arllwys neu fynediad at dir trydydd parti**<br>Yn amodol ar Safon 1 – cyrchfan, gallai hyn gynnwys Caniatâd a thrwyddedau arllwys i gyrsiau dŵr; Hawliau i osod pibellau ar dir/hawddfreintiau trydydd parti; Manylion am hawddfreintiau; Caniatâd gan berchennog glan afon i arllwys; Cytundebau Deddf Diwydiant Dŵr 1991 Adran 106 (Cysylltu) gan gwmni dŵr. |

| **Safon 2 – Rheolaeth hydrolig ar ddŵr wyneb ffo** |
|---|
| **Mapiau Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos y safle**<br>Mae'r rhain ar gael yn rhad ac am ddim gan ddefnyddio'r mapiau Asesu Perygl Llifogydd Cenedlaethol ar wefan CNC[92].<br>Gallwch argraffu mapiau ar ffurf PDF o'r wefan hon i'w cynnwys gyda'ch cais SAB. |
| **Gwirio mapiau o ddynodiadau amgylcheddol a pheryglon posibl**<br>Mae Syllwr MAP CNC[93] ar gael yn rhad ac am ddim, ac yn dangos dynodiadau amgylcheddol.<br>Gwiriwch am gyfleustodau yn y tir, er enghraifft drwy ddefnyddio Linesearch[94]. |
| **Nodweddion hydrolegol y safle**<br>Crynodeb o'r nodweddion glaw a ddefnyddiwyd ar gyfer y safle. Dylai hyn gynnwys glawiad blynyddol cyfartalog y safle (SAAR), cyfraddau dŵr ffo maes glas, patrwm glawiad (1 mewn 100 mlynedd), ac arddwysedd glawiad brig sy'n cael ei ddefnyddio i ddylunio cydrannau trawsgludo (pantiau a phibellau). |
| **Dangos cydymffurfiad ailgyfeirio**<br>Nod meini prawf ailgyfeirio yw sicrhau nad oes unrhyw ddŵr ffo o lawiad o 5mm.<br>Mae'r Safonau Statudol yn darparu Tabl G2.1, y gellir ei ddefnyddio i ddangos cydymffurfio tybiedig. Dylai'r cais ddangos bod y meini prawf cydymffurfio yn cael eu bodloni ar gyfer pob arwyneb a'r nodweddion SuDS cyfatebol. |
| **Cyfrifiadau storio ar gyfer nodweddion SuDS**<br>Yn nodi cyfaint storio pob un o'r nodweddion SuDS a sut y cafodd ei gyfrifo.<br>• Cyfrifiadau casglu dŵr glaw (os y'u defnyddir)<br>• Cyfrifiadau dyluniadau ymdreiddio (os y'u defnyddir)<br>• Cyfrifiadau storio eraill i fodloni cyfradd arllwys gytûn. |
| **Cyfrifiadau hydrolig ar gyfer trawsgludo**<br>Yn nodi uchafswm y dŵr ffo ar hyd pob llwybr dŵr ffo a sut y cafodd ei gyfrifo, a chynhwysedd y nodwedd gludo (e.e. pant neu bibell) a sut y cafodd ei gyfrifo.<br>Ar gyfer pantiau, dylid dangos cyfrifiad y cyflymder mwyaf hefyd. |
| **Asesiad o ormodiant**<br>Dylai hwn ystyried gormodiant y system a'i ganlyniadau. Ar y lleiaf, bydd hwn yn gynllun syml sy'n dangos llwybrau llifo o wahanol nodweddion SuDS pe byddai methiant neu orlifo, yn dangos lle bydd y dŵr yn mynd yn y pen draw (h.y. cwrs dŵr neu bwll mewn pant rhywle arall ar y safle). |
| **Lluniadau manwl**<br>Lluniadau ar raddfa, gan gynnwys:<br>• Croestoriad hir o'r to neu'r arwyneb i'r cyrchfan arllwys, yn amlygu pob un o'r nodweddion SuDS a'r dull trawsgludo a/neu'r ddyfais reoli a ddefnyddir. Dylid dangos y lefelau presennol ac arfaethedig (e.e. mAOD), ynghyd â goleddfau/graddiant nodweddion SuDS a nodweddion trawsgludo (e.e. 1 mewn 150). Dylid amlygu'r lefelau dŵr uchaf ar bob nodwedd SuDS hefyd.<br>• O leiaf un trawstoriad ar gyfer pob nodwedd SuDS, yn cynnwys manylion am ddeunyddiau/cynhyrchion, dimensiynau, graddiant.<br>• Manylion am unrhyw nodweddion fel trapiau silt, rheoli llif, argaeau atal. Weithiau, caiff systemau casglu dŵr glaw eu dylunio gan gyflenwyr/gosodwyr, ac mae angen darparu manylion am y rhain a datgan eu bod yn cydymffurfio â BS 8515.<br>*Gallai lluniadau cysyniadol helpu â'r trafodaeth cyn-ymgeisio. Er enghraifft, dyfyniadau o'r Llawlyfr SuDS sy'n dangos yr hyn a gynigir. |
| **Manylebau** (yn ôl y gofyn)<br>Gellir dangos manylebau deunyddiau ar luniadau manwl. Gellir cael manylebau'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer nodweddion SuDS gwahanol o'r Llawlyfr SuDS, yn ôl y gofyn. |

| **Safon 3 – Ansawdd dŵr** |
|---|
| **Cynllun Defnydd Tir**<br>Cynllun sy'n dangos yn glir yr arwynebau gwahanol sy'n cael eu cynnig fel rhan o'r datblygiad a'r hyn y caiff y rhain eu defnyddio ar ei gyfer (h.y. to plastig a atgyfnerthwyd â gwydr (GRP) dros ardal fwydo, maes parcio â'r nifer ddisgwyliedig o geir bob diwrnod ac ati). |

92 https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Html5Viewer/Index.html?configBase=https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Geocortex/Essentials/REST/sites/Flood_Risk/viewers/Flood_Risk/virtualdirectory/Resources/Config/Default&layerTheme=3

93 https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Html5Viewer210/Index.html?configBase=https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Geocortex/Essentials/REST/sites/External_Map_Browser/viewers/EMB_Address/virtualdirectory/Resources/Config/Default&locale=en-gb

94 https://www.linesearchbeforeudig.co.uk/

| **Asesiad ansawdd dŵr** |
|---|
| Gan dybio y defnyddir dull mynegai syml ar gyfer Lefel Perygl Llygredd 'Isel', dylai hyn gynnwys tabl neu rywbeth tebyg sy'n dangos:<br>• Y Lefel Perygl Llygredd ar gyfer pob un o'r arwynebau sydd wedi'u hamlygu yn y cynllun Defnydd Tir, ac arwynebedd (mewn metrau sgwâr) pob arwyneb.<br>• Y nodweddion SuDS a ddefnyddir a'r Mynegeion Lliniaru ar gyfer pob un (gan ddefnyddio'r Dull Mynegai Syml yn y Llawlyfr SuDS).<br>Mae hyn wedi'i seilio ar gydymffurfio â'r gofynion atal o ddim dŵr ffo ar gyfer digwyddiad glawiad o 5mm (gweler Safon 2). |

| **Safon 4 – Amwynder** |
|---|
| **Cynllun yn dangos ardaloedd amwynder**<br>Ar gyfer y math hwn o gais, disgwylir y gellir cyfuno'r cynllun hwn â chynllun Safon 5 – Bioamrywiaeth. Dylid cynnwys unrhyw nodweddion amwynder wedi'u hintegreiddio o fewn/ochr yn ochr â'r nodweddion SuDS.<br>*Yn y Safonau Statudol, nodir wrth asesu amwynder y bydd y SAB yn ystyried Safon 1.* |

| **Safon 5 – Bioamrywiaeth** |
|---|
| **Cynllun plannu**<br>Cynllun yn dangos trefniant, nifer a dwysedd yr ardaloedd hadu, plannu a choed arfaethedig yn y nodweddion SuDS ac yn gyfagos atynt.<br>*Yn y Safonau Statudol, nodir wrth asesu bioamrywiaeth y bydd y SAB yn ystyried Safon 1.* |

| **Safon 6 – Dylunio draenio ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw** |
|---|
| **Cydnabod cyfrifoldeb am gynnal a chadw**<br>Mae rhai SABau yn gofyn am ddatganiad gan y tirfeddiannwr yn cydnabod ei fod/bod (y tirfeddiannwr) yn gyfrifol am weithredu a chynnal a chadw'r nodweddion SuDS. Yn nodweddiadol, ychydig linellau yw hyn yn datgan cyfeiriad y safle, enw'r cynllun, a'r nodweddion SuDS a fydd yn cael eu cynnal a chadw yn unol â'r amserlen/cynllun Rheoli a Chynnal a Chadw. |
| **Cynllun Rheoli a Chynnal a Chadw**<br>Rhaid i'r cynllun hwn gwmpasu hyd oes y datblygiad a dylai fod yn benodol i bob nodwedd SuDS arfaethedig. Dylai'r cynllun fod mewn fformat y gall perchenogion y dyfodol, a fydd yn gyfrifol am ymgymryd â'r gwaith cynnal a chadw neu ei drefnu, ei ddeall yn hawdd.<br>Dylai'r cynllun:<br>• Restru pob math o ddraeniad (e.e. pibell) a chydran SuDS (e.e. pant) ar wahân.<br>• Cynnwys lluniad syml o gynllun y safle, sy'n dangos yn glir leoliadau'r cydrannau draenio a SuDS uwchben ac o dan y ddaear. Dylai hefyd ddangos sut i fynd atynt, yn ôl y gofyn.<br>• Ar gyfer pob math o ddraeniad a chydran SuDS, dylai restru'r tasgau y dylid ymgymryd â nhw a pha mor aml y dylid gwneud hynny ar hyd oes y datblygiad. Sylwer bod rhaid i hyn gynnwys gwaith adfer lle mae oes dylunio'r cynnyrch yn llai na hyd oes y datblygiad arfaethedig.<br>• Rhestru'r peiriannau a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer cynnal a chadw pob un o'r uchod.<br>• Cynnwys gwybodaeth am y cynnyrch. Er enghraifft, tystysgrifau (fel tystysgrifau BBA), llawlyfrau neu ganllawiau cynnal a chadw argymelledig ar gyfer cynhyrchion penodol e.e. tanciau casglu dŵr glaw, systemau gwanhau, dyfeisiau rheoli llif. |
| **Cynllun rheoli adeiladu**<br>Gall hwn fod yn gynllun syml sy'n dangos y drefn y caiff pethau eu hadeiladu ar y safle. Dylai amlygu unrhyw beryglon posibl a all effeithio ar yr amgylchedd (e.e. gwaddodion ffo i gyrsiau dŵr), a phethau a all effeithio ar berfformiad hirdymor y SuDS (e.e. cywasgu'r tir mewn lleoliadau ffosydd cerrig). Yna, dylai roi disgrifiad bras o'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i liniaru'r peryglon hyn. |

6.50 Yn ogystal â'r nodiadau cyffredinol uchod, efallai y bydd darpar geiswyr am edrych ar y canllawiau technegol manwl ar gymhwyso'r Safonau SDCau Statudol sydd ar gael drwy dudalennau SDCau Llywodraeth Cymru.

# Atodiad 1 - Rhestr Wirio Hierarchaeth SDCau

## Safon 1 – Rhestr Wirio Hierarchaeth SDCau i ddylunwyr/ceiswyr a chyrff cymeradwyo

Rhaid i gyrchfan dŵr wyneb ffo gael ei gadarnhau cyn y gall safonau statudol eraill a dyluniadau cysylltiedig fynd rhagddynt. Mae’r tabl isod yn cynnig dull gweledol defnyddiol er mwyn sicrhau diwydrwydd dyladwy wrth flaenoriaethu’r cyrchfannau mwyaf cynaliadwy. Argymhellir y dylid ei ddefnyddio ar gyfer pob cais.

| Lefel Blaenoriaeth | Cyrchfan dŵr wyneb ffo | Cyrchan a ddewiswyd (Ie/Na) * | Cyfiawnhad dros *beidio* â dewis y cyrchfan ** |
|---|---|---|---|
| 1 | Wedi’i gasglu i’w ddefnyddio (cynaeafu dŵr glaw) | | |
| 2 | Ymdreiddio i’r ddaear | | |
| 3 | Corff dŵr agored/cwrs dŵr/prif afon | | |
| 4 | Cwlfert neu garthffos dŵr wyneb | | |
| 5 | Draen priffordd | | |
| 6 | Carthffos gyfun | | |

Os oes mwy nag un cyrchfan, yna marciwch y man priodol ag **Y**

** Dylid cyfeirio at unrhyw ddogfennaeth berthnasol sy’n ymwneud â’r penderfyniad i’w ddewis/peidio â’i ddewis fel cyrchfan a’i hatodi

# Atodiad 2 – Proses gwneud cais ar gyfer system ddraenio gynaliadwy (diagram)

